



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Gwasanaeth Radioleg – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad Cyhoeddi: Mai 2017

Cyfeirnod y Ddogfen: 255A2017

Cafodd y ddogfen hon ei pharatoi fel rhan o waith a ddigwyddodd yn unol â ffwythiannau statudol.

Yn achos derbyn cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn amlinellu'r arfer o drin ceisiadau sy'n ddisgwyliedig i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon. Yng nghyd-destun y ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru ar [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym ni'n croesawu cyfathrebu a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd cyfathrebu â ni yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r tîm a ddarparodd y gwaith hwn yn cynnwys Tracey Davies, Katrina Febry, Philip Jones ac Elaine Matthews.

# Cynnwys

Mae gwasanaethau radioleg a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd yn dderbyniol ar y cyfan, er bod rhai heriau oherwydd absenoldeb hirdymor pennaeth i'r gwasanaeth ac isadeiledd TG bregus, yn ogystal â chyfleoedd i gryfhau rheoli perfformiad.

## Adroddiad Cryno

Cefndir	4
Gwybodaeth gyd-destunol	6
Ein prif ganfyddiadau	7
Argymhellion	9

## Adroddiad Manwl

Mae lefelau boddhad cleifion yn uchel ac mae mynediad i belydr-x a sganiau uwchsain yn dda er bod oedi wrth adrodd yn ôl ar ddelweddau	10
Rheolir cyfeirio'n dda ac ni fu problemau wrth recriwtio staff gweithredu er bod potensial fod cyfran sylweddol o'r staff o fewn pum mlynedd i ymddeol	24
Bydd offer yn cael ei ddiweddarau'n fuan, ond mae angen cyfeirio at arweinyddiaeth, monitro perfformiad ac isadeiledd gwybodaeth fel rhan o gynlluniau'r Bwrdd Iechyd i drawsnewid gwasanaethau diagnostig	31

## Atodiadau

Atodiad 1 – dull archwilio	41
Atodiad 2 – ymateb Rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion	43

# Adroddiad cryno

## Cefndir

- 1 Mae radioleg yn wasanaeth diagnostig ac ymyrrol allweddol ar gyfer y GIG ac mae'n cefnogi'r ystod lawn o arbenigeddau mewn ysbytai aciwt, gwasanaeth cynradd a gwasanaethau cymunedol. Bydd clinigwyr a leolir mewn ysbytai, gan gynnwys meddygon ymgynghorol, meddygon eraill, ac o dan amodau a gytunwyd, ymarferwyr anfeddygol, yn aml yn cyfeirio cleifion i gael delweddu radioleg, fel y bydd meddygon teulu'n eu gwneud.
- 2 Bydd radiolegwyr diagnostig yn defnyddio ystod o dechnegau delweddu gwahanol ac offer soffistigedig i gynhyrchu amrywiaeth eang o ddelweddu o ansawdd uchel o gleifion. Mae'r delweddu'n cynnwys pelydr-x plaen, uwch-sain anobstetrig (US) a thomograffeg cyfrifedig (CT) yn ogystal â thechnegau soffistigedig fel delweddu atseinol magnetig (MRI)
- 3 Mae radiolegwyr clinigol<sup>1</sup> yn feddygon sy'n defnyddio delweddu i'w helpu i gaffael diagnosis, trin a rheoli cyflyrau meddygol a chlefydau. Mae ganddynt rôl allweddol wrth reoli cyflwr claf yn glinigol, dewis y dechneg ddelweddu orau i alluogi gwneud diagnosis a lleihau'r perygl o ymbelydredd. Mae gan radiolegwyr ymyrrol rôl fwy uniongyrchol wrth drin cleifion. Byddan nhw'n defnyddio delweddu radiolegol i alluogi gwneud triniaethau sydd y lleiaf ymyrrol y gallant fod, fel atal gwaedu a allai fygwth bywyd, a thriniaethau achosion dydd fel stentio'r oesoffagws ac angioplasti. Bydd pob radiolegydd yn gweithio fel rhan o'r timau rhyngddisgyblaethol sy'n rheoli gofal i gleifion.
- 4 Mae datblygiadau cyflym mewn technoleg a dealltwriaeth am y modd y bydd nodweddion clefyd yn ymglyfwyno ar ddelweddu diagnostig wedi galluogi defnyddio delweddu'n gynt yn y broses ddiagnostig. Yn yr un modd, mae modd gweld newidiadau yn nodweddion clefydau wrth eu trin yn well, a defnyddir delweddu'n aml i fonitro cynnydd. O safbwynt y claf, gall adnabod radiolegol cynnar wella deilliant y driniaeth ac osgoi poen a dioddefaint diangen. Gall hefyd leihau maint a chost y driniaeth.

<sup>1</sup> Yn yr adroddiad hwn, pan gyfeirir at radiolegwyr, mae hyn yn cynnwys radiolegwyr ymgynghorol, meddygon canolraddol, cofrestrwyr arbenigol a meddygol iau. Pan fydd unrhyw wyro oddi wrth hyn, bydd cynnwys yr adroddiad yn nodi hynny e.e. radiolegwyr ymgynghorol.

- 5 Mae'r galw am wasanaethau radioleg yn parhau i gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Gyrrir y cynnydd gan nifer o ffactorau, gan gynnwys newidiadau demograffig, canllawiau clinigol newydd, trothwy us ar gyfer sganio a chyfeirio, gwaith goruchwyllo ar gyfer cleifion sy'n goroesi, twf mewn sgrinio a chynnydd yng nghymhlethdod delweddau.
- 6 Dangosodd **Darparu Gwasanaethau Delweddu Diagnostig y Dyfodol yng Nghymru** (2009)<sup>2</sup> fod y galw am rai mathau o ddelweddu wedi bod yn cynyddu 10% i 15% y flwyddyn. Dangosodd adroddiadau diweddar gan yr Archwilydd Cyffredinol ar **Amseroedd Aros y GIG am Ofal Dewisol yng Nghymru** (Ionawr 2015)<sup>3</sup>, a **Gwasanaethau Orthopaedig** (Mehafin 2015)<sup>4</sup> fod y galw cynyddol am wasanaethau radioleg yn arwain at gyfnodau hir o aros am driniaeth radioleg ddiagnostig a bod angen atebion cynaliadwy i ymdrin â hyn.
- 7 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynlluniau cyflenwi i wella'r driniaeth a roddir i gyflyrau iechyd mawr fel strôc<sup>5</sup>, canser<sup>6</sup> a chlefyd y galon<sup>7</sup>. Mae'r cynlluniau oll yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau radioleg effeithiol ac effeithlon. Mae'r llwybrau gofal cysylltiedig oll yn pwysleisio'r angen am brosesau cyfeirio cyflym, profi diagnostig cyflym ar bwyntiau penodol yn y llwybr, yr offer cywir a staff sy'n meddu ar y sgiliau addas.
- 8 Er bod angen darparu atebion hirdymor i reoli a chwrdd â'r galw cynyddol am wasanaethau radioleg, ceir cydnabyddiaeth gyffredinol fod gweithlu ymgynghori radioleg y DU o dan bwysau sylweddol. Yn 2015, roedd 9% o swyddi ymgynghorol radioleg heb eu llenwi a 7% ohonynt yng Nghymru<sup>8</sup>. Ar gyfer y cyfnod 2015 i 2020, mae lleihad yn y gweithlu ymgynghorol oherwydd ymddeoliad yn debygol o fod yn uwch yng Nghymru nag yn unrhyw ran arall o'r DU. Disgwylir y bydd rhyw 30% o ymgynghorwyr Cymru'n ymddeol os yw'r oedran ymddeol yn 60, o'i gymharu â 20% ar draws y DU i gyd<sup>9</sup>.
- 9 Mae twf yn digwydd yn y defnydd o radioleg ymyrrol (IR). Mae technegau o'r fath yn dibynnu ar ddelweddau radiolegol i dargedu triniaeth yn fanwl. Gellir defnyddio technegau IR ar gyfer pwrpasau diagnostig a thriniaeth. Mae'r galw am dechnegau

<sup>2</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, **Dyfodol y Gwasanaethau Delweddu Diagnostig yng Nghymru 2009**

<sup>3</sup> Swyddfa Archwilio Cymru, **Gofal Dewisol yng Nghymru**, Ionawr 2015

<sup>4</sup> Swyddfa Archwilio Cymru, **Gwasanaethau Orthopaedig**, Mehafin 2015

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, **Law yn Llaw at Iechyd, Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc**, 2012

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, **Law yn Llaw at Iechyd, Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser**, 2012

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, **Law yn Llaw at Iechyd, Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd ar y Galon**, 2013

<sup>8</sup> Royal College of Radiologists, **Clinical radiology UK workforce census 2015 report**, 2016

<sup>9</sup> Royal College of Radiologists, **Clinical radiology UK workforce census 2015 report**, 2016

o'r fath ar gynnydd ac mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar adnoddau staffio gwasanaeth radioleg sydd eisoes yn cael ei orymestyn. Derbynnir yn gyffredinol gan y diwydiant radioleg fod niferoedd radiolegwyr ymyrrol ledled Cymru, fel mewn rhannau eraill o'r DU, yn rhy isel. Yng Nghymru, mae gan y Bwrdd Rhaglen Ddelweddu Genedlaethol (NIPB) raglen waith sy'n ystyried capasiti radiolegwyr ymyrrol a sut y gellir ymdrin â hyn.

- 10 Yr NIPB yw prif ffynhonnell cyngor, gwybodaeth ac arbenigedd ar gyfer cynllunio gwasanaethau delweddu yng Nghymru. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr clinigol a rheoli o sefydliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau delweddu yng Nghymru. Yn 2010 rhoddwyd awdurdod a ddirprwywyd i'r NIPB i ddatblygu a gweithredu rhaglen o waith strategol ym maes radioleg hyd at 2016, ac i fabwysiadau safonau a gweithdrefnau Cymru gyfan dros wasanaethau delweddu yn y GIG Cymru. Er bod cynnydd yn digwydd ar lefel genedlaethol, erys sawl her sylweddol i ymdrin yn llawn â hwy. Er enghraifft, mae anawsterau sy'n parhau o ran recriwtio staff radioleg cyffredinol ac arbenigol a gofidiau am y systemau gwybodaeth sy'n cefnogi gwasanaethau radioleg.
- 11 O ystyried yr heriau a amlinellir uchod, penderfynodd y Prif Archwilydd ei bod hi'n amserol i wneud adolygiad o wasanaethau radioleg ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru. Fe wnaeth y gwaith hwnnw archwilio'r hyn y mae byrddau iechyd yn ei wneud i ymdrin â'r galw cynyddol am wasanaethau radioleg, a'r graddau i mae'r gweithredoedd hyn yn darparu atebion cynaliadwy a chost-effeithiol i'r heriau amrywiol sy'n bodoli. Fe fu i'r archwiliad hefyd archwilio technegau delweddu radioleg allweddol, neu'r modalau, yn ogystal â radioleg ymyrrol mewn sefyllfaoedd aciwt. Cafodd radioleg driniaethol ei eithrio.
- 12 Bu i ni ymgymryd â'r gwaith maes ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) rhwng mis Mehefin 2016 ac Awst 2016. Mae Atodiad 1 yn darparu mwy o fanylion am ddull a methodoleg yr archwiliad.
- 13 Yn ogystal â'r gwaith archwilio lleol hwn yn y Bwrdd Iechyd, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal archwiliad gwerth-am-arian yng Ngwasanaeth Informateg GIG Cymru, a fydd yn edrych ar weithredu RADIS<sup>10</sup> a PACS<sup>11</sup> ledled Cymru, ymysg materion eraill. Disgwylir cyhoeddi canfyddiadau'r gwaith hwnnw tua diwedd gwanwyn 2017.

## Gwybodaeth gyd-destunol

- 14 Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau radioleg pelydr-x plaen ac uwch-sain. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi radiograffwyr i ddarparu pelydr-x gan ddefnyddio offer a leolir yn chwech o'i ysbytai cymunedol. Mae uwch-sain anobstetrig ar gael ym mhedwar o'r ysbytai cymunedol ac fe'i cyflawnir gan sonograffwyr a gomisiynwyd o fyrddau iechyd eraill.

<sup>10</sup> RADIS – System Wybodaeth Radioleg Cymru

<sup>11</sup> PACS – System Archifo Lluniau a Chyfathrebu

- 15 Comisiynir triniaethau delweddu ac ymyrrol eraill, fel sganiau MRI a CT, yn ogystal â gwaith adrodd yn ôl ar belydr-x ac uwch-sain gan y Bwrdd Iechyd oddi wrth ystod o ddarparwyr mewn byrddau iechyd cyfagos yng Nghymru ac Ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr<sup>12</sup>. Daw trefniadau comisiynu drwy gyfrwng cytundebau lefel gwasanaeth sy'n ymdrin ag ystod o wasanaethau gan gynnwys cefnogaeth broffesiynol ar gyfer y radiograffwyr, gwarchodaeth rhag ymbelydredd a gwasanaethau TG er mwyn storio ac anfon delweddu.
- 16 Bu i'r Bwrdd Iechyd ymgymryd â dau beilot i ddarparu sganio MRI symudol i gleifion ym Mhowys: digwyddodd y cyntaf yn ne'r sir ym mis Mawrth ac Ebrill 2015 ac yna un yng ngogledd y sir yn Chwefror 2016. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn darparu sganiau MRI ym Mhowys ar hyn o bryd.
- 17 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar wasanaethau delweddu a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd (pelydr-x ac uwch-sain anddeiaagnostig). Ble bo'n berthnasol, mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at ein hadroddiadau ar wasanaethau radioleg (uwch-sain, MRI a CT) mewn byrddau iechyd sy'n darparu gwasanaethau i gleifion Powys.

## Ein prif ganfyddiadau

- 18 Yn gyffredinol, ein casgliad oedd bod y gwasanaethau radioleg a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd yn dderbyniol ar y cyfan, er bod rhai heriau oherwydd absenoldeb hirdymor pennaeth i'r gwasanaeth ac isadeiledd TG bregus, yn ogystal â chyfleoedd i gryfhau rheoli perfformiad.

<sup>12</sup> BIP Abertawe Bro Morgannwg, BIP Aneurin Bevan, BIP Betsi Cadwaladr, BIP Cwm Taf, BIP Hywel Dda, Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy, Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Ysbyty Orthopaedig Robert Jones & Agnes Hunt ac Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford.

## Dangosyn 1: Ein prif ganfyddiadau

### 19 Tabl sy'n amlinellu ein prif ganfyddiadau.

<b>Ein prif ganfyddiadau</b>
<p>Mae lefelau bodlonrwydd cleifion yn uchel ac mae mynediad i belydr-x ac uwch-sain yn dda er bod oedi'n digwydd wrth adrodd yn ôl ar ddelweddau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• mae gan gleifion fynediad da i wasanaethau pelydr-x ac uwch-sain yn ystod oriau gwaith mewn ysbytai cymunedol ym Mhowys;</li><li>• gwelir pob claf o fewn y targed wyth wythnos ar gyfer uwch-sain anobstetrig ar ôl cynnydd mewn buddsoddiad yn y gwasanaeth;</li><li>• mae amserau adrodd yn ôl o fewn cyfyngiadau derbynol yn gyffredinol;</li><li>• archwilir perfformiad clinigol yn rheolaidd a chaiff ei drafod â staff er nad oes archwiliadau galw wedi cael eu gwneud; ac</li><li>• mae bodlonrwydd cleifion â'r gwasanaethau a ddarperir ym Mhowys yn uchel a diweddarwyd y prosesau ar gyfer cofnodi digwyddiadau yn ddiweddar.</li></ul>
<p>Rheolir cyfeirio'n dda ac ni fu problemau recriwtio staff gweithredu er bod cyfran arwyddocaol o'r staff o fewn pum mlynedd i ymddeol o bosib:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• mae'r galw am radioleg ddiagnostig yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn;</li><li>• mae canllawiau cyfeirio yn eu lle ac mae'r gwasanaeth yn cymryd camau cadarnhaol i leihau cyfeirio anaddas;</li><li>• mae gan y Bwrdd lechyd weithlu gweithredu sefydlog ac nid yw wedi gweld dim anawsterau recriwtio ond mae cyfran arwyddocaol o'r staff o fewn pum mlynedd i ymddeol o bosib; a</li><li>• thra bo staff yn ymgymryd â gwerthusiadau rheolaidd, ac yn meddu ar gynlluniau datblygu personol, mae cydymffurfio â hyfforddiant mandadol yn is na'r targed.</li></ul>
<p>Bydd offer yn cael ei ddiweddarau cyn bo hur, ond mae angen ymdrin ag arweiniad, monitro perfformiad ac isadeiledd gwybodaeth fel rhan o gynlluniau'r Bwrdd lechyd i drawsnewid gwasanaethau diagnostig:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• mae'r Bwrdd lechyd wrthi'n dechrau datblygu'i strategaeth ddiagnostig fel rhan o'i uchelgais ehangach i ddod â gwasanaethau'n nes at adref;</li><li>• mae atebolrwydd rheolwyr yn glir ar lefel gwasanaeth, er bod absenoldeb pennaeth y gwasanaeth yn golygu fod rhai cyfrifoldebau'n dal heb eu hateb;</li><li>• cynrychiolir radioleg ar bwyllgorau allweddol ar gyfer perfformiad ac ansawdd a diogelwch;</li><li>• yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf nid yw'r gyllideb radiograffeg wedi newid ac mae'r gwasanaeth wedi tanwario ar ei gyllideb;</li><li>• mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi cyllid cyfalaf i ddiwygio cyfleusterau pelydr-x ac uwch-sain;</li><li>• mae systemau radioleg gwahanol ar waith ar draws y Bwrdd lechyd, ac er bod pob un ohonynt yn gweithio'n dda yn gyffredinol, mae isadeiledd TG y Bwrdd lechyd yn fregus; a</li><li>• methiannau o ran amseroedd aros yw'r unig wybodaeth perfformiad a dderbyniwyd gan y Bwrdd o ran gwasanaethau radioleg.</li></ul>



## Argymhellion

20 O ganlyniad i'r gwaith hwn, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion a amlinellir yn **Nangosyn 2**.

### Dangosyn 2: argymhellion

Tabl sy'n amlinellu ein hargymhellion i'r Bwrdd Iechyd

<b>Ffactorau sy'n effeithio ar brofiad y claf</b>	
R1	Datblygu cynllun gweithredu sy'n manylu ar y modd y bydd oedi wrth adrodd yn ôl yn cael ei drin yn gynaliadwy.
<b>Materion galw a chapasiti sy'n effeithio ar berfformiad y gwasanaeth</b>	
R2	Adolygu adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar wasanaethau radioleg ar gyfer byrddau iechyd sy'n darparu MRI, CT ac uwch-sain er mwyn deall materion mynediad ac adrodd yn ôl er mwyn cynorthwyo â thrafodaethau comisiynu ag ysbytai sy'n darparu gwasanaeth.
R3	Mae angen i'r Bwrdd Iechyd adnabod maint y galw cynyddol am bob math o ddelweddu diagnostig, gan gynnwys sganio MRI a CT, a sut y mae'n bwriadu cwrdd â hyn fel rhan o ddatblygu'i gynllun strategol ar gyfer gwasanaethau diagnostig i boblogaeth Powys dros y pum mlynedd nesaf.
R4	Dros y flwyddyn nesaf, cynyddu cyfraddau hyfforddiant mandadol ar gyfer pob aelod o staff radioleg hyd at darged y Bwrdd Iechyd, sef 85%, o leiaf.
<b>Y graddau y mae gwasanaethau radioleg wedi'u rheoli'n dda</b>	
R5	Cryfhau rheoli perfformiad drwy ehangu ar y dewis o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd â'r amcanion busnes a gwasanaeth i gynnwys agweddau fel oedi wrth adrodd yn ôl.

# Adroddiad manwl

## Mae lefelau bodlonrwydd cleifion yn uchel ac mae mynediad i belydr-x ac uwch-sain yn dda er bod oedi'n digwydd wrth adrodd yn ôl ar ddelweddau

### Mae gan gleifion fynediad da i wasanaethau pelydr-x ac uwch-sain yn ystod oriau gwaith mewn ysbytai cymunedol ym Mhowys

- 21 Cydnabyddir fod gwasanaethau mynediad agored<sup>13</sup> yn fodd o leihau'r amser y mae'n ei gymryd i gleifion gael mynediad i ddelweddu. Serch hynny, gall y dull hwn o weithredu arwain at heriau wrth reoli galw, yn enwedig pan fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer delweddu mwy cymhleth. Mae ganddo'r potensial hefyd i godi disgwyliadau cleifion ac annog gor-brofi. Er enghraifft, os rhoddir pelydr-x i glaf â phoen yng ngwaelod ei gefn, ni fydd yn gwella'i gyflwr. Efallai y bydd yn mynnu fod y meddyg teulu'n ei gyfeirio at gael pelydr-x am ei fod yn teimlo fod rhywbeth yn cael ei wneud drostynt. Efallai na fyddai'r penderfyniad i'w gyfeirio'n cael ei gefnogi pan fydd yr adran radioleg neu wasanaeth cyfeirio sgrinio arall yn adolygu'r cais. Gall hyn arwain at dyndra rhwng disgwyliadau'r claf a'r ymateb proffesiynol cywir.
- 22 Er bod y rhan fwyaf o adrannau radioleg yn cynnig rhyw fath o fynediad agored i wasanaethau, mae faint o fynediad sydd ar gael yn amrywio. Yn arferol, dim ond pelydr-x plaen sydd ar gael fel arfer, fel yn achos pelydr-x i'r frest. Os yw'r gweithiwr meddygol proffesiynol wedi penderfynu fod agen cael pelydr-x ffilm plaen, mae'n llenwi ffurflen gais a bydd y claf yn mynd â honno i'r adran radioleg yn ystod oriau agor i dderbyn y pelydr-x y gofynnwyd amdano, os yw'n addas.
- 23 Rhoddir ffurflen gais i gleifion sydd angen pelydr-x ffilm plaen syml gan eu meddyg teulu neu gyfeiriwr anfeddygol, fel y rheiny a leolir yn yr Unedau Mân Anafiadau (MIU). Mae gan y Bwrdd Iechyd system archebu lle dros y ffôn yng Ngogledd Powys, y mae'r claf yn ei ffonio ac asesir eu cais a rhoddir lefel blaenoriaeth iddo. Nid yw Ysbyty Aberhonddu'n cynnig mynediad agored, ond dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym eu bod yn gweithio'n agos â meddygon teulu lleol bob amser er mwyn derbyn cleifion ar unwaith os ydyn nhw'n ffonio'r Bwrdd Iechyd i drafod yr angen am weithredu brys. Fel arfer mae mynediad i belydr-x yn dda a gallant weld cleifion ar yr un diwrnod os yw'n achos brys neu o fewn tridiau os yw'n achos arferol. Dywedwyd wrthym fod modd gweld cleifion brys i gyd ar fyrder yn yr adrannau pelydr-x, ac mai ar fore dydd Llun y mae'r amser aros hiraf.
- 24 Ble nad yw mynediad agored ar gael, er enghraifft ar gyfer delweddu mwy cymhleth, dylai'r cyfeirio nodi faint o frys sydd. Yn arferol, dosberthir cyfeirio fel a ganlyn: brys (claf allanol) neu flaenoriaeth arferol (claf allanol). Mae hyn yn sicrhau fod y cleifion sydd â'r angen mwyaf o ran amser yn cael eu gweld gyntaf. Mae'r

<sup>13</sup> Ble darperir gwasanaeth mynediad agoer, gall meddyg teulu gyfeirio claf i gael ei weld y diwrnod hwnw gan yr adran pelydr-x berthnasol.

Bwrdd Iechyd yn defnyddio pedwar categori cyfeirio at ddynodi blaenoriaeth glinigol: brys, brys amheuaeth o ganser, arferol ac 'arall'. Diffinnir 'arall' os nad oes angen i'r archwiliad ddigwydd o fewn pythefnos, ond na ddylai aros yn hwy na saith i wyth wythnos ar restrau arferol. Bydd angen i gleifion aros am uwch-sain fel arfer a bydd pob cais am uwch-sain yn cael ei wirio yn ôl a oes modd i'r claf aros bythefnos neu fwy.

- 25 Fe all fod angen i gleifion ag anghenion iechyd brys gael mynediad i ddiagnosteg radioleg ar fyrder, a gofal y tu allan i oriau gweithio radioleg arferol. Dengys **Dangosyn 3** mai dim ond un ysbyty ym Mhowys sydd â gwasanaeth saith niwrnod ar gyfer pelydr-x (Aberhonddu) ac mae'r ysbytai eraill i gyd yn gweithredu am bum niwrnod, heblaw am Fachynlleth, sy'n darparu pelydr-x un diwrnod yr wythnos. Bydd cleifion sydd angen pelydr-x neu driniaeth ddiagnostig frys arall y tu allan i'r oriau hyn yn mynychu ysbyty y tu allan i Bowys fel rhan o'r llwybr gofal heb ei gynllunio. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym y gellid trefnu ar gyfer gwasanaeth mynediad agored llawn ac ehangu darpariaeth allan o oriau yn y dyfodol pe bai'r galw amdano'n amlwg.

### Dangosyn 3: lleoliadau pelydr-x ac uwch-sain anobstetric mewn ysbytai cymunedol ym Mhowys

Tabl sy'n dangos lleoliad ac argaeledd pelydr-x ac uwch-sain anobstetric

Ysbyty Cymunedol	Pelydr -X	Uwch-sain Anobstetric
Ysbyty Coffa Aberhonddu	7 diwrnod	2 diwrnod
Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi (Machynlleth)	1 diwrnod	Ddim ar gael
Ysbyty Llandrindod	5 diwrnod	Ddim ar gael
Ysbyty Sirol Trefaldwyn (Y Drenewydd)	5 diwrnod	1 diwrnod
Ysbyty Coffa Victoria (Y Trallwng)	5 diwrnod	2.5 diwrnod
Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais	5 diwrnod	2 diwrnod

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

- 26 O ganlyniad i'r oedi wrth gael mynediad i wasanaethau diagnostig yn ne'r sir, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd beilot o ddarpariaeth symudol ar gyfer sganiau MRI yn Ysbyty Bronllys ym mis Mawrth ac Ebrill 2015. Yr amcan oedd gweld a fyddai sganiwr MRI symudol yn gallu lleihau amseroedd amser a darparu sganiau MRI yn nes i gartref. Roedd meddygon teulu ac ymgynghorwyr ar ymweliad yn Ne'r Ardal yn cyfeirio pobl ar gyfer sganiau orthopedig syml. Adroddodd y Bwrdd Iechyd yn gadarnhaol ar y gwerthusiad. Am fod BIP Cwm Taf yn cynnig Mhris ychwanegol fel

rhan o ddatblygu'r hÿb diagnostig, mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn anfon cleifion i Ferthyr yn hytrach na'r Fenni, ac nid yw wedi gwneud penderfyniad ynglŷn â darpariaeth MRI symudol ar gyfer y dyfodol.

- 27 Darparodd y Bwrdd Iechyd wasanaeth MRI symudol yn ne Powys ym mis Chwefror 2016 hefyd. Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod hyn wedi digwydd er mwyn profi a allai'r Bwrdd Iechyd gynnig gwasanaethau MRI. Roedd yr adborth gan gleifion yn rhagorol ac yn gefnogol iawn. Cyrhaeddodd pob delwedd yn y fformat PACS cywir, a chynhyrwyd adroddiadau mewn dull amserol. Peilot ydoedd, ac yn hynny o beth, ni newidiwyd y llwybr cyfeirio. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir yn y dyfodol ynglŷn â darpariaeth MRI yn digwydd fel rhan o ddatblygu strategaeth ddiagnosteg y Bwrdd Iechyd.
- 28 Mae ein hadroddiadau radioleg mewn byrddau iechyd eraill yn darparu gwybodaeth am fynediad cleifion i wasanaethau radioleg gan gynnwys yn oriau gwaith a darpariaeth allan o oriau ar gyfer CT, MRI ac uwch-sain.

## Gwelir pob claf o fewn y targed wyth wythnos ar gyfer uwch-sain anobstetrig ar ôl cynnydd mewn buddsoddiad yn y gwasanaeth

- 29 Mae'n ofynnol i bob corff GIG yng Nghymru i gydymffurfio â tharged amseroedd aros diagnostig Llywodraeth Cymru, sy'n nodi na ddylai'r un claf aros mwy nag wyth wythnos i dderbyn eu prawf diagnostig. Mae'r targed amser aros diagnostig yn berthnasol i bob ymyriad radiolegol, gan gynnwys delweddu atseiniol magnetig (MRI), tomograffeg gyfrifedig (CT), ac uwch-sain anobstetrig, fflworoscopi, enema bariwm a meddygaeth niwclear. Nid yw targed Llywodraeth Cymru'n berthnasol i belydr-x ffilm plaen.
- 30 Ers 2009, mae amseroedd aros ar gyfer profion radiolegol hefyd wedi bod yn rhan o'r targed cyfeirio at driniaeth (RTT)<sup>14</sup>. Mae'n ofynnol i fyrddau iechyd yng Nghymru sicrhau fod 95% o gleifion sy'n aros am driniaeth ddewisol dderbyn eu triniaeth o fewn 26 wythnos o'r pwynt pan wnaed y cyfeiriad. I lawer o'r cleifion hyn, mae profion diagnostig yn helpu i benderfynu pa driniaeth yw'r dewis gorau.
- 31 Mae amseroedd aros radioleg Cymru gyfan<sup>15</sup> ar gyfer cyfeiriadau radioleg meddygon teulu ac ymgynghorol yn darparu data a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ar amseroedd aros ar gyfer ystod o wasanaethau diagnostig. Mae'r Bwrdd

<sup>14</sup> Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 014 – **Mynediad 2009 – Mesur amser Cyfeirio tan Driniaeth**, Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 051 – **2009 Mynediad – Darparu Llwybr Claf 26 Wythnos – Cynllun Cyflawni a Gweithredu Integredig** a Chylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 075 – **2009 Prosiect Mynediad – Canllawiau Ychwanegol ar gyfer Gweithredu Llwybrau Cleifion 26 Wythnos**

<sup>15</sup> **Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Thriniaeth – Gwasanaethau Infformateg GIG Cymru (cafwyd mynediad via StatsWales ar 30 Hyd 2016)**

lechyd yn casglu data amseroedd aros ar gyfer ei wasanaeth uwch-sain anobstetrig ar gyfer cleifion Powys ac yn ei gyflwyno i NWIS.

- 32 Darperir uwch-sain diagnostig ar dir y Bwrdd lechyd gan ddefnyddio'i offer ei hun, a sonograffwyr a gyflogir gan fyrdau iechyd cyfagos yn dod ar ymweliad o Gymru ac ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr o dan gytundebau lefel gwasanaeth. Ym mis Awst 2016, roedd 281 claf yn aros am sgan US anobstetrig yn y Bwrdd lechyd, ond doedd dim un ohonynt yn aros dros wyth wythnos. (**Dangosyn 4**).

#### Dangosyn 4: amseroedd aros am sgan US anobstetrig yn Awst 2016

Tabl sy'n dangos nad oes gan y Bwrdd lechyd ddim cleifion sy'n aros dros wyth wythnos am sgan US o'i gymharu â ffigur Cymru gyfan, sef 13%.

Cyfanswm y cleifion sy'n aros am sgan US anobstetrig						
	Hyd at 8 wythnos	Dros 8 wythnos a hyd at 14 wythnos	Dros 14 wythnos a hyd at 24 wythnos	Dros 24 wythnos	Cyfanswm aros	Canran y cleifion sy'n aros mwy nag 8 wythnos
Ysbyty Coffa Aberhonddu	57	0	0	0	57	0%
Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi (Machynlleth)	31	0	0	0	31	0%
Ysbyty Sirol Trefaldwyn (Y Drenewydd)	2	0	0	0	2	0%
Ysbyty Coffa Victoria (Y Trallwng)	103	0	0	0	103	0%
Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais	88	0	0	0	88	0%
<b>Cyfanswm Bwrdd lechyd Addysgu Powys</b>	<b>281</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>281</b>	<b>0%</b>
<b>Cyfanswm Cymru gyfan<sup>1</sup></b>	<b>18,944</b>	<b>1,999</b>	<b>626</b>	<b>133</b>	<b>21,702</b>	<b>13%</b>


<sup>1</sup> Mae ffigurau Cymru gyfan yn cynnwys pob claf sy'n aros am sgan diagnostig ym myrddau iechyd Cymru

Ffynhonnell: **Amserau Aros Diagnostig a Thriniaeth**, Gwasanaethau Infformateg GIG Cymru (cafwyd mynediad i StatsWales, 30 Hydref 2016).

- 33 Lleihodd cyfanswm y cleifion ar y rhestr aros ar gyfer sgan US anobstetrig yn y Bwrdd Iechyd o 52% rhwng Awst 2012 ac Awst 2016, a lleihaodd y canran o gleifion oedd yn aros dros wyth wythnos o 12% i 0% (Dangosyn 5). Pan fydd amseroedd aros yn dechrau cynyddu, bydd y Bwrdd Iechyd yn prynu sesiynau ychwanegol naill ai ym Mhowys neu wedi'u darparu mewn ysbytai eraill er mwyn cynyddu llif y cleifion er mwyn cael yr amseroedd aros i lawr.
- 34 Er bod gan y Bwrdd Iechyd gyfleusterau uwch-sain mewn pump o'i ysbytai, nid ydynt yn cael eu defnyddio i'w llawn ddefnydd. Mae hyn o ganlyniad i anawsterau wrth geisio cael sonograffwyr, sy'n rhan o brinder cenedlaethol, er bod y Bwrdd Iechyd wrthi'n cynyddu defnydd y cyfleusterau gan fydwragedd ar gyfer sgrinio cyn-geni.

**Dangosyn 5: tueddiad amserau aros sgan US anobstetrig o Awst 2012 tan Awst 2016**

Graff yn dangos nifer y cleifion sy'n aros am sgan US. Er nad oedd y gwasanaeth yn cwrdd â'r targed yn ystod y cyfnod 2014 a 2015. mae'r gwasanaeth wedi cwrdd yn gyson â'r targed amser aros wyth wythnos yn ystod 2016.



Ffynhonnell: **Amserau Aros Diagnostig a Thriniaeth**, Gwasanaethau Infformateg GIG Cymru (cafwyd mynediad i StatsWales, 30 Hydref 2016).

- 35 Trafodir amseroedd aros ar gyfer diagnosteg a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd yn y cyfarfod Powys gyfan sy'n digwydd bob pythefnos i drafod rhestr aros, sy'n cynnwys trafodaeth ar gynnydd yn erbyn y targed RTT. Os oes problem, mae'n

cael ei gynyddu i sylw'r Cyfarwyddwr Gofal Cynradd a Chymunedol, er mai prin yw'r achosion ble mae radioleg yn methu. Pan gafwyd methiannau ym maes uwch-sain yn Ystradgynlais, roedd modd iddynt ddatrys hyn drwy ddod ag adnoddau ychwanegol i'r fei i gynnal sesiynau ychwanegol. Fe'n sicrhawyd gan y Bwrdd lechyd fod amseroedd aros ar gyfer uwch-sain anobstetrig yng Ngogledd Powys yn cael eu rheoli'n effeithiol.

- 36 Nid yw'r Bwrdd lechyd yn adrodd ar ddata ar amseroedd aros ar gyfer cleifion Powys o ran diagnosteg sy'n cael ei ddarparu gan ysbytai eraill am nad oes modd gwahanu'r ffigurau hynny oddi wrth yr holl lwybr gwasanaethau a gomisiynir. Mae ein hadroddiadau diweddar ar wasanaethau radioleg mewn byrddau iechyd eraill yng Nghymru yn darparu gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer cleifion sy'n cael mynediad i MRI, CT ac uwch-sain gan ddangos yr ysbytai ble nad yw'r targedau wyth wythnos yn cael eu cyflawni.

## Mae amserau adrodd yn ôl o fewn cyfyngiadau derbyniol yn gyffredinol

- 37 Mae angen i reolaeth effeithiol ar ofal cleifion yn gofyn am adrodd yn ôl yn amserol ar ddelweddau radioleg, gan ymarferydd awdurdodedig cymwys, radiolegydd fel arfer. Mae'r adroddiad yn gofnod o'r dehongliad o'r sgan, a ddefnyddir i wneud penderfyniadau pellach am ofal y claf. Gall unrhyw oedi wrth adrodd effeithio'n andwyol ar ddeilliannau cleifion.
- 38 Rhaid adrodd ar bob delwedd a'i ddarparu i'r clinigydd sydd wedi cyfeirio'r claf mewn amser addas yn unol ag anghenion a chyflwr clinigol y claf. Cynhyrchwyd y Safonau Adrodd Cymreig ar Wasanaethau Radioleg 2011 (y Safonau) er mwyn gwneud canllawiau a rheoliadau blaenorol yn fwy eglur. Mae'r Safonau'n amlinellu y dylai radioleg anelu at ddarparu amseroedd cynhyrchu adroddiad fel a ganlyn:
- brys – ar unwaith / yr un diwrnod gwaith
  - claf mewnol – o fewn un diwrnod gwaith
  - Adran Frys – o fewn un diwrnod gwaith
  - Meddyg teulu – o fewn tri diwrnod gwaith
  - claf allanol – o fewn deg diwrnod gwaith
- 39 Darperir yr holl adrodd ar ddelweddau, gan gynnwys y rheini a wneir yn eiddo Powys ac mewn mannau eraill, gan radiolegwyr a radiograffwyr sy'n cofnodi, a gyflogir mewn pum bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth arall drwy gyfrwng cytundeb lefel gwasanaeth (SLA). Yr SLA ar gyfer pelydr-x arferol yw pum niwrnod er bod yr amser yn fyrrach ar gyfer canfyddiadau annisgwyl, Cwblheir adroddiadau uwch-sain yn syth ar ôl gwneud y ddelwedd gan y sonograffwyr band 7, a'u hanfon drwy ffacs at y cyfeiriwr os yw'n achos brys. Dengys **Dangosyn 6** yr ysbytai sy'n darparu cefnogaeth radiolegydd a maint y gwasanaeth.

**Dangosyn 6: adrodd a ddarperir gan fyrrdau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG eraill o dan gytundebau lefel gwasanaeth sydd yn bodoli ers 2012-13**

Tabl sy'n dangos fod pum bwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth GIG gwahanol wedi'u cytundebu i ddarparu 26,500 adroddiad radioleg mewn blwyddyn.

Ysbyty Cymunedol	Bwrdd Iechyd Prifysgol / Ymddiriedolaeth GIG	Nifer o adroddiadau pelydr-x y flwyddyn dan gontract
Ysbyty Coffa Aberhonddu	Aneurin Bevan	5,000
Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi (Machynlleth)	Hywel Dda	1,000
Ysbyty Llandrindod	Dyffryn Gwy	6,000
Ysbyty Sirol Trefaldwyn (Y Drenewydd)	Betsi Cadwaladr	9,000 ar draws y ddau safle
Ysbyty Coffa Victoria (Y Trallwng)		
Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais	Abertawe Bro Morgannwg	5,600
Cyfanswm adroddiadau		26,600

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Addysgu Powys , **Asesiad SLA 2012-13**

- 40 Fe wnaethon ni holi'r Bwrdd Iechyd am yr amserau cylchdroi yr oedd yn eu profi ar gyfer adroddiadau pelydr-x ac uwch-sain. Darparwyd yr wybodaeth hon ar gyfer pedwar ysbyty. Mae'r data yn **Nangosyn 7** yn dangos fod amser cynhyrchu adroddiadau a ddarperir gan BIP Betsi Cadwaladr (Y Trallwng a'r Drenewydd) a BIP Hywel Dda (Machynlleth) o fewn tridiau, tra bo BIP Abertawe Bro Morgannwg (Ystradgynlais) yn nodi amser adrodd cyfartalog o bedwar diwrnod.



## Dangosyn 7: amser cynhyrchu adroddiad ar gyfartaledd yn y Bwrdd Iechyd rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016

Tabl yn dangos fod amser cynhyrchu adroddiad arferol yn amrywio o ddau ddiwrnod i bedwar diwrnod ar gyfer pelydr-x a rhwng 0 ac 1 dydd ar gyfer uwch-sain.

	Amser creu adroddiad ar gyfartaledd (dyddiau)	
	Pelydr-x plaen	US
Ysbyty Coffa Aberhonddu	Ni wyddys	Ni wyddys
Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi (Machynlleth)	3	Amherthnasol
Ysbyty Llandrindod	Ni wyddys	Amherthnasol
Ysbyty Sirol Trefaldwyn (Y Drenewydd)	2	Ni wyddys
Ysbyty Coffa Victoria (Y Trallwng)	3	0
Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais	4	1

### Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, **Arolwg Bwrdd Iechyd**

- 41 Dengys y data yn **Nangosyn 8** fod y cyfnodau aros hiraf ar gyfer adroddiadau ar belydr-x plaen yn Ysbyty Bro Ddyfi (52 diwrnod) ac Ysbyty Ystradgynlais (49 diwrnod) a oedd hefyd ble gwelwyd ambell arhosiad hir ar gyfer uwch-sain (35 diwrnod). Mae'r rhain yn tynnu sylw at y ffaith fod rhywfaint o oedi wedi digwydd gyda gwasanaethau radioleg a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.
- 42 Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod rhai materion gyda meddygon teulu'n dweud nad ydynt wedi derbyn adroddiadau electronig, felly rhaid i'r radiograffwyr anfon copiâu papur atynt.

## Dangosyn 8: amser hiraf i gynhyrchu adroddiad rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016

Tabl yn dangos mai'r amser cynhyrchu adroddiad hiraf oedd 52 niwrnod ar gyfer pelydr-x a 35 niwrnod ar gyfer uwch-sain.

	Amser hiraf <sup>1</sup> cynhyrchu adroddiad (dyddiau)	
	Pelydr-x plaen	US
Ysbyty Coffa Aberhonddu	Ni wyddys	Ni wyddys
Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi (Machynlleth)	52	Amherthnasol
Ysbyty Llandrindod	Ni wyddys	Amherthnasol
Ysbyty Sirol Trefaldwyn (Y Drenewydd)	13	Ni wyddys
Ysbyty Coffa Victoria (Y Trallwng)	13	2
Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais	49	35

<sup>1</sup> Mae'r amserau adrodd hiraf yn eithrio unrhyw allanolion amlwg

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, **Arolwg Bwrdd Iechyd**

- 43 Dengys y data yn **Nangosyn 9** y nifer o archwiliadau na chawsant mo'u hadrodd am fwy na 10 diwrnod ers dyddiad yr archwiliad. Ni chofnododd Ysbyty Bro Ddyfi unrhyw broblemau gydag archwiliadau na chawsant eu hadrodd am fwy na 10 diwrnod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Roedd gan Ysbyty Ystradgynlais rai archwiliadau na chawsant mo'u hadrodd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar gyfer pelydr-x (wyth niwrnod) ac uwch-sain (13 diwrnod). Gwelodd ysbyty Trefaldwyn rywfaint o oedi yn y gwasanaeth iddyn nhw gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## Dangosyn 9: nifer o archwiliadau na adroddwyd arnynt ar 31 Mawrth 2016

Tabl yn dangos mai'r nifer uchaf o archwiliadau na adroddwyd arnynt yw 9 diwrnod ar gyfer pelydr-x a 13 diwrnod ar gyfer uwch-sain.

	Nifer o archwiliadau na adroddwyd arnynt <sup>1</sup>	
	Pelydr-x plaen	US
Ysbyty Coffa Aberhonddu	Ni wyddys	Ni wyddys
Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi (Machynlleth)	0	Amherthnasol
Ysbyty Llandrindod	Ni wyddys	Amherthnasol
Ysbyty Sirol Trefaldwyn (Y Drenewydd)	9	Ni wyddys
Ysbyty Coffa Victoria (Y Trallwng)	6	1
Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais	8	13

<sup>1</sup> Archwiliadau na adroddwyd arnynt yw'r rheiny nad ydynt wedi cael eu hadrodd yn ôl fwy na 10 diwrnod ar ôl dyddiad yr archwiliad. .

### Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, **Arolwg Bwrdd Iechyd**

- 44 Ni fu i'r Bwrdd Iechyd ddarparu data i ni ar amseroldeb adrodd ar ddelweddau ar gyfer pob un o'u hysbytai. Mae hyn yn ofid oherwydd mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy yn darparu cyfran fawr o gyfanswm yr adroddiadau (41%). Nid oedd gwybodaeth am adrodd ar uwch-sain ar gael ar gyfer Ysbyty Trefaldwyn (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) chwaith.
- 45 Mae'r oedi gydag adrodd ar ddelweddau wedi ymddangos ar gofrestr risg radioleg y Bwrdd Iechyd ers sawl blwyddyn gyda gofid arbennig am y gwasanaeth a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Er bod y gwasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda wedi gwella dros y misoedd diweddar, gan arwain at leihau'r risg, mae'n parhau i fod ar y gofrestr risg oherwydd bod y gwasanaeth mor fregus. Fe glywsom fod oedi wrth adrodd yn gallu arwain at newid ymddygiad ymysg y rhai sy'n cyfeirio, fel cynyddu'r nifer o gyfeiriadau a gatedoreiddir fel rhai brys. Dywedodd radiograffwyr wrthym eu bod nhw'n rhoi gwybodaeth i feddygon teulu am unrhyw newidiadau i amseroedd adrodd drwy e-bostio rheolwyr y practis.
- 46 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym eu bod nhw'n fodlon fod amseroedd adrodd bellach yn fras o fewn ffiniau derbynol ar gyfer pob darparwr, er eu bod yn cael rhai anawsterau o bryd i'w gilydd. Er enghraifft, er bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi torri amserlenni a gytunwyd yn ddiweddar o gryn dipyn, mae hyn bellach wedi'i ddatrys. Cefnogir y casgliad hwn gan ei harolwg o radiograffwyr: dywedodd 2/8 nad oedd ganddyn nhw broblem gydag amseroldeb cefnogaeth radiolegwyr wrth adrodd ar ddelweddau; dywedodd 4/8 eu bod yn cael problemau achlysurol; a dywedodd 2/8 fod amseroedd adrodd ar y cyfan yn rhy hir.

- 47 Mae radiograffwyr ymarfer ymestynnol yn derbyn hyfforddiant ychwanegol i ddehongli ac adrodd ar rai mathau o ddelweddau, fel arfer sganiau llai cymhleth fel pelydr-x plaen. I gleifion sy'n mynychu adran frys a chael pelydr-x plaen yn oriau arferol yr ysbyty, mae defnyddio radiograffwyr ymarfer ymestynnol yn cynyddu'r tebygrwydd y bydd adroddiad yn cael ei gynhyrchu tra bo'r claf yn dal i fod yn yr adran. Pan fydd pelydr-x yn cael ei adrodd arno gan radiolegwyr yn unig, efallai na fydd yr adroddiad ffurfiol yn cael ei gynhyrchu am rai oriau, weithiau ddyddiau, ar ôl i'r claf adael yr ysbyty. Yn yr achosion hyn, bydd y pelydr-x yn cael eu hasesu yn y lle cyntaf gan glinigydd nad oes ganddo ddim hyfforddiant radioleg ffurfiol. Gall defnyddio radiograffwyr ymarfer ymestynnol helpu i leihau niferoedd ail-alw cleifion a achosir am fod dehongliad gwreiddiol y pelydr-x yn anghywir. Mae'r Bwrdd Iechyd yn prynu gwasanaeth un radiograffydd adrodd profiadol rhan amser ar gyfer pelydr-x plaen oddi wrth Abertawe Bro Morgannwg ar gyfer Ysbyty Ystradgynlais. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth hwn yn gweithio'n dda.
- 48 Mae pob radiograffydd yng Ngogledd Powys yn darparu gwerthusiad clinigol cychwynnol, a elwir yn 'wneud sylw' ac a anogir gan Gymdeithas y Radiograffwyr. Mae hyn yn golygu fod y claf yn cael diagnosis cychwynnol adeg gwneud y pelydr-x. Drwy wneud gwerthusiad cychwynnol, mae'r radiograffydd yn helpu'r meddyg teulu i wybod a oes angen i glaf aros yn y Trallwng neu fynd i ysbyty cyffredinol ardal y tu allan i'r sir. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod archwiliadau a gynhelir bob tri mis wedi dangos cyfradd cywirdeb o 85-100%.
- 49 Er mwyn lleihau gofidiau i gleifion os ydyn nhw'n cael diagnosis gwahanol pan fydd yr adroddiad llawn yn dod ar gael, mae Ysbyty'r Trallwng wedi mabwysiadu ffurflen pelydr-x a roddir ganddynt i gleifion sy'n dweud y gall y diagnosis fod yn wahanol ar ôl i radiolegydd adolygu'r ddelwedd. Mae hyn yn helpu cleifion i wahaniaethu rhwng barn a diagnosis.
- 50 Cododd meddygon teulu yn ein grwpiau ffocws nifer o ofidiau am amseroldeb adrodd ar ddelweddu a ddarperir yn y sir neu allan ohoni. Roedd gofid penodol gan feddygon teulu fod y claf yn cael gwybod y byddan nhw'n cael y canlyniad ymhen pum niwrnod, ac felly daw'r claf yn ôl i'r feddygfa i gael apwyntiad, er nad yw'r canlyniadau ar gael eto. Roedd meddygon teulu hefyd yn ofidus fod oedi wrth adrodd ar ddelweddau'n arwain at broblemau ar hyd y llwybr triniaeth cyfan.
- 51 Mae ein hadroddiadau ar wasanaethau radioleg mewn byrddau iechyd eraill yng Nghymru'n darparu data ar amseroedd adrodd, a yw targedau amseroedd adrodd yn cael eu cwrdd, ac a yw adrodd yn digwydd gan radiolegwyr, staff eraill neu drwy drefniadau all-ffynonellu.

## Archwilir perfformiad clinigol yn rheolaidd a chaiff ei drafod â staff er nad oes archwiliadau galw wedi cael eu gwneud

- 52 Rhaid i wasanaethau radioleg sicrhau fod perfformiad clinigol yn cwrdd â'r safonau addas ar gyfer trin a gofalu am gleifion bob amser. Mae angen iddynt gydymffurfio â'r Fframwaith Delweddu Diagnostig Cenedlaethol (NDIF). Mae NDIF yn dwyn ynghyd ystod eang o safonau sy'n berthnasol ac sy'n weithredol ym maes radioleg,

fel targedau amser aros, Safonau Gofal Iechyd i Gymru, a chynlluniau darparu cenedlaethol ar gyfer cyflyrau penodol.

- 53 Mae angen i adrannau radioleg fonitro perfformiad clinigol i sicrhau fod cydymffurfio'n digwydd â safonau ac i gynnal rhaglen glir o archwilio clinigol. Mae **Canllaw Arfer Dda i Radiolegwyr Clinigol** Coleg Brenhinol y Radiolegwyr yn amlinellu arfer dda yng nghyd-destun cynllunio a darparu archwiliad clinigol. Mae hyn yn cynnwys AuditLive, offeryn sy'n amlinellu casgliad o dempledi archwilio, gan ddarparu fframwaith sy'n dangos arfer orau ar gamau allweddol yn y cylch archwilio, gan ymdrin â thros 100 o bynciau radioleg.
- 54 Adolygwyd Cynllun Archwilio Clinigol 2016-17 y Bwrdd Iechyd gan y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch ym mis Mai 2016. Mae'r cynllun yn cynnwys dau archwiliad radiograffeg a gynlluniwyd ar gyfer eu cwblhau yn ystod y flwyddyn. Dywedodd adroddiad cynnydd diweddar gerbron y Pwyllgor ym mis Chwefror 2017 fod archwiliad cywirdeb gwerthusiad clinigol cychwynnol radiograffydd wedi'i gwblhau yn ôl y disgwyl ym mis Rhagfyr 2016. Roedd archwiliad ffurflenni cais i'w gwblhau ym mis Ionawr 2017.
- 55 Holodd ein harolwg Bwrdd Iechyd am adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd ar draws wyth maes gwasanaeth. Fe fu i ni ddarganfod, ers mis Ebrill 2015 bod:
- archwiliadau ac adolygiadau rheolaidd wedi digwydd mewn tri maes; addaswydd cyfeiriadau; addaswydd cyfeiriadau brys neu allan o oriau; ac ansawdd ceisiadau ysgrifenedig;
  - ymgwymerwyd ag adolygiadau rheolaidd mewn tri maes: cywirdeb adrodd; amseroedd cynhyrchu adroddiad; ac adroddiadau a gollwyd neu sy'n hwyr; ac
  - ni wnaed dim adolygu nac archwilio mewn dau faes: lefelau galw yn ôl dydd /diwrnod yr wythnos; lefelau galw gan feddygon teulu / staff ysbytai.
- 56 Rhaid i staff radioleg sicrhau eu bod nhw'n gwarchod cleifion ac aelodau staff rhag peryglon ymbelydredd, Mae Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Perygl Meddygol) 2000 (IR(ME)R), a rheoliadau diweddarach a amodwyd yn 2006 a 2011, yn darparu set o reoliadau ar gyfer staff meddygol sy'n cyfeirio cleifion i'r adran radioleg, y rheiny sy'n cyfiawnhau'r archwiliad a'r rheiny sy'n gweithredu'r offer. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) yn gyfrifol am fonitro cydymffurfio yn erbyn IR(ME)R. Cynhaliwyd ei adroddiad mwyaf diweddar mewn tri ysbyty<sup>16</sup> ym mis Medi 2016 ac adroddodd i'r Bwrdd Iechyd ym mis Rhagfyr 2016.
- 57 Ymatebodd y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion a chyhoeddodd HIW lythyr ym mis Ionawr 2017 i ddatgan fod ymateb y Bwrdd Iechyd yn rhoi sicrhad digonol. Trafodwyd yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr yn y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch ym mis Chwefror 2017. Rhoddwyd sicrhad i'r Pwyllgor fod pob gweithred ond un eisoes wedi cael eu cwblhau; roedd dyddiad cwblhau gan y weithred oedd yn weddill, ynghlŷn â'r angen am hyfforddiant i weithredwyr ac

<sup>16</sup> Ysbyty Coffa Victoria, Y Trallwng; Ysbyty Coffa Aberhonddu; ac Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais . <http://hiw.org.uk/docs/hiw/inspectionreports/161216powysirmeren.pdf>

ymarferwyr oedd yn ymweld er mwyn ymgymryd â thriniaethau ar safleoedd y Bwrdd Iechyd, sef diwedd Mawrth 2017.

- 58 Adroddodd archwiliad IR(ME)R y Bwrdd Iechyd eu bod wedi gweld tystiolaeth fod nifer o archwiliadau wedi digwydd ar draws yr adrannau yr oedden nhw wedi ymweld â hwy. Dywedwyd wrth HIW fod canlyniadau un o'r archwiliadau wedi cael e rhannu yn y Pwyllgor Gwarchod rhag Ymbelydredd Blynyddol er mwyn adnabod a rhannu'r hyn a ddysgwyd. Adroddir ar y ddau archwiliad arall gerbron Cyfarfod Tîm Radiograffeg.
- 59 Mae ein hadroddiadau ar wasanaethau radioleg mewn byrddau iechyd eraill yng Nghymru'n darparu gwybodaeth ar eu rhaglenni archwilio clinigol hwy.

## Mae bodlonrwydd cleifion â'r gwasanaethau a ddarperir ym Mhowys yn uchel a diweddarwyd y prosesau ar gyfer cofnodi digwyddiadau yn ddiweddar

- 60 Rhaid i wasanaethau radioleg sicrhau fod eu harferion yn ddiogel. Er enghraifft, dylid cynnig technegau radiolegol addas i gleifion bob amser sy'n gwrthbwysu unrhyw risgiau sylfaenol â'r manteision posib a ddaw o ddiagnosis a thriniaeth. Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod cleifion yn derbyn y dos cywir o ymbelydredd, a dylid monitro a gwarchod staff er mwyn diogelu nad ydyn nhw'n agored i lefelau peryglus o ymbelydredd wrth iddynt wneud eu gwaith. Pan fydd camgymeriadau neu ddigwyddiadau'n cael eu darganfod, dylai byrddau iechyd weithio gyda phenderfyniad ac yn agored i ddysgu gwersi a rhwystro digwyddiadau o'r fath rhag digwydd eto.
- 61 Yn 2015-16, cafwyd 12 cofnod o ddigwyddiadau mewn adrannau radioleg diagnostig ar draws y Bwrdd Iechyd, a phob un ohonynt wedi'u nodi fel difrifoldeb isel neu ddim yn achosi niwed i gleifion. Amlinellir prosesau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cofnodi digwyddiadau gan ddefnyddio Datix yng Ngweithdrefn Gweithredu Safonol J, Mwy o Ymbelydredd nag a Fwriadwyd / Ymbelydredd Anfwriadol a Methu o Drwch Blewyn. Mae'r weithdrefn hon yn disgrifio pan fydd angen adrodd am ddigwyddiad a sut, ynghyd â'r wybodaeth sydd angen ei chyflwyno drwy gyfrwng system adrodd electronig y Bwrdd Iechyd.
- 62 Adroddodd yr archwiliad IR(ME)R diweddar fod gan y Bwrdd Iechyd weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer adrodd, cofnodi ac archwilio digwyddiadau o dan IR(ME)R (Gweithdrefn J), ond serch hynny, nid oedd yn glir ymhob achos technegol ac nid oedd yn cynnwys y broses ar gyfer adrodd rhai achosion i HIW. Argymhelliad HIW oedd bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud trefniadau i adolygu a diwygio'r weithdrefn ysgrifenedig yn ôl yr hyn oedd yn addas. Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i argymhellion IR(ME)R yn dweud y byddan nhw'n gweithredu i ymateb i'r argymhelliad hwn drwy ddyfeisio siart llif i egluro'r weithdrefn adrodd a sicrhau fod pob aelod perthnasol o staff yn ymwybodol ohono. Cwblhawyd y weithred hon erbyn 1 Chwefror 2017.

- 63 Trafodir pob digwyddiad a adroddir gan y grŵp lleoliad addas, sef y Grŵp Ansawdd, Risg a Phrofiad yn Lleoliad y Gogledd a'r Grŵp Ansawdd, Profiad Cleifion a Risg yn Lleoliad y De. Ymdrinnir â digwyddiadau a rhennir y gwersi a ddysgir mewn cyfarfodydd tîm radiograffeg. Mae Grŵp Profiad Cleifion y Bwrdd Iechyd hefyd yn adrodd ar wersi a ddysgwyd o ganlyniad i ddigwyddiadau. Serch hynny, darganfu ein harolwg o radiograffwyr mai dim ond eu hanner oedd o'r farn fod trefniadau da ar gael i ymateb i ddigwyddiadau, a dywedodd un wrthym eu bod yn ansicr a oedd gweithredu wir yn digwydd ar faterion.
- 64 Mae adborth gan gleifion yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth ar gyfer gwasanaethau radioleg er mwyn deall a gwella profiad cleifion. Mae'r gwasanaeth yn casglu adborth profiad cleifion drwy gyfrwng sawl mecanwaith, sy'n cynnwys:
- cardiau post a leolir yn ardaloedd aros i gleifion yr adrannau pelydr-x;
  - holiadur bodlonrwydd cleifion a ddefnyddiwyd ar gyfer y peilot MRI; a
  - holiaduron cleifion HIW a ddsbarthwyd cyn yr archwiliad IR(ME)R ynghyd â chyfweliadau â chleifion oedd yn mynychu adeg yr archwiliad.
- 65 Canfu ein harolwg o ysbytai eu bod wedi derbyn cyfanswm o 25 gair da yn ystod 2015-16 a dim un gŵyn. Ymgwymerwyd ag ymdrechion lleol i gasglu adborth gan gleifion yn rhai o'r ysbytai:
- Ym mis Gorffennaf 2016, cynhyrchodd Ysbyty Ystradgynlais adroddiad ar eu harchwiliad o brofiadau cleifion yn seiliedig ar gardiau post a gwblhawyd yn yr adran pelydr-x yn ystod 2015-16. Gofynnwyd i gleifion beth roedden nhw'n ei hoffi neu ddim yn ei hoffi ac roedd yr atebion yn hollol gadarnhaol. Cylchynwyd y canlyniadau ymysg y Gwasanaeth Radiograffeg, Tîm Lleoliad y De a'r Tîm Profiadau Cleifion.
  - Yn Ysbyty Coffa Aberhonddu, fe fu i ni weld fod cardiau post ar gael yn hawdd i gleifion yn ystafell aros pelydr-x, ond dywedwyd wrthym mai prin yr oedden nhw'n cael eu llenwi.
  - Yn y Trallwng, dywedwyd wrthym fod cardiau post ar gael yn yr ystafelloedd aros, ond mai prin y bydd cleifion yn aros ddigon hir i'w llenwi.
- 66 Canfu adroddiad diweddar IR(ME)R fod pob claf / gofalwr a wnaeth sylw wedi dweud wrth HIW eu bod nhw'n hapus iawn â'r gwasanaeth a dderbyniwyd ganddynt ac iddynt ganmol dull ac agwedd y timau staff, glendid yr adrannau ac amseroldeb cael eu gweld Dywedodd cleifion eu bod yn cael eu trin â pharch.
- 67 Casglwyd gwybodaeth am brofiad cleifion mewn dull systematig yn ystod y peilot MRI gan ddefnyddio holiadur bodlonrwydd cleifion. Darganfu'r peilot fod cyfraddau bodlonrwydd cleifion a'r meddygon cyfeiriol yn uchel iawn. Roedd cleifion yn hoffi'r lleoliad, a chyfleustra parcio a'r lleihad mewn amseroedd aros cyn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth. Y prif ofid a godwyd gan nifer fach o'r cleifion oedd lefel y sŵn neu'r clawstroffobia a achoswyd gan y broses sganio. Gallai'r adborth hyn gael ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaeth MRI symudol pe bai'r Bwrdd Iechyd yn penderfynu ei ddefnyddio yn y dyfodol. Cynhyrchodd y peilot rai meysydd ar gyfer gwella hefyd, y gellir eu defnyddio i wella profiad cleifion o'r MRI yn y dyfodol.

- 68 Cyhoeddwyd Strategaeth Profiad Cleifion 2016-2019 y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2016. Mae'r strategaeth yn darparu ymrwymiad o'r newydd i ddysgu oddi wrth brofiadau cleifion. Disgwylir i staff gyfrannu at wella profiad pob claf a defnyddiwr gwasanaeth o ddarpariaethau iechyd ac, mewn rhai achosion gofal cymdeithasol, drwy geisio adborth ystyrlon yn hyfyw. Mae'r cynllun gweithredu tair blynedd yn cynnwys mecanweithiau ar gyfer casglu adborth cytbwys, sy'n cael ei symud yn ei flaen gan y timau lleoliad.
- 69 Fe wnaethon ni ofyn i radiograffwyr sy'n seiliedig ym Mhowys a oedden nhw'n meddwl fod eu hadnoddau'n ffocysu ar y claf ac yn addas. Cytunodd pob un a ymatebodd eu bod. Adroddodd yr archwiliad IR(ME)R hefyd fod cyfleusterau'n lân a thaclus, gydag ystafelloedd newid bychain ar gael oedd yn cynnig preifatrwydd i gleifion pe bai angen iddynt newid i wisgo gŵn. Roedd arwyddion clir i'r adrannau ac roedd staff yr ysbytai ar gael i roi cyfarwyddiadau yn ôl y galw.
- 70 Mae ein hadroddiadau mewn byrddau iechyd eraill yn darparu gwybodaeth ar eu prosesu ar gyfer dysgu o brofiad cleifion, cwynion a digwyddiadau ac unrhyw ofid o ran amgylchedd y claf.

## Rheolir cyfeirio'n dda ac ni fu problemau recriwtio staff gweithredu er bod cyfran arwyddocaol o'r staff o fewn pum mlynedd i ymddeol o bosib

### Mae'r galw am radioleg ddiagnostig yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn

- 71 Arweiniodd rôl gynyddol radioleg mewn gofal clinigol at alw cynyddol am archwiliadau radiolegol, yn enwedig am sganiau CT ac MRI. Er nad yw ffigurau ar gael ar gyfer Cymru, dengys y data mwyaf diweddar ar gyfer Lloegr fod cynnydd o 42% yn nifer yr archwiliadau radioleg a ddigwyddodd bob blwyddyn rhwng 2003 (28.8 miliwn o sganiau) a 2014 (40.9 miliwn o sganiau)<sup>17</sup>. Mae Coleg Brenhinol y Radiolegwyr wedi rhagweld y bydd nifer yr archwiliadau radiolegol a gynhelir yn Lloegr erbyn 2022 tua 62 miliwn<sup>18</sup> y flwyddyn, a'r nifer yn cael ei yrru gan ddatblygiadau newydd a thwf demograffig.
- 72 Yn ogystal â'r cynnydd blynyddol yn y nifer o sganiau sy'n digwydd, mae sganiau'n mynd yn fwy cymhleth. Bu'r cynnydd canrannol mwyaf o ran nifer ar gyfer archwiliadau radiolegol ym maes sganiau CT ac MRI am eu bod nhw'n chwarae rôl gynyddol wrth roi diagnosis cynnar yn achos sawl clefyd. Mae Coleg Brenhinol y Radiolegwyr yn rhaglued y bydd cynnydd canrannol mwyaf o ran archwiliadau

<sup>17</sup> [Annual Imaging and Radiodiagnostics Data](#), NHS Lloegr, 2014

<sup>18</sup> Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, [Information submitted to Health Education England workforce planning and education commission round 2015-16](#)



sydd i'w ddisgwyl yn flynyddol hyd at 2022 yn digwydd ym maes sganiau MRI (o 2.7 miliwn o sganiau'r flwyddyn yn 2014 i 7.8 miliwn yn 2022) a sganiau CT (5.2 miliwn o sganiau'r flwyddyn yn 2014 i 12.3 miliwn yn 2022)<sup>19</sup>. Mae sganiau MRI a CT yn archwiliadau data cymhleth, sydd fel arfer yn cynnwys sawl delwedd, ac o ganlyniad, fesul pob archwiliad claf, yn fwy dwys o ran llafur i'r radiolegwyr sy'n dadansoddi'r delweddau o'u cymharu â mathau llai cymhleth o sgan, fel pelydr-x plaen.

- 73 Mae strategaeth ddiagnosteg drafft y Bwrdd Iechyd yn cydnabod fod galw'n cynyddu oherwydd y newid mewn demograffeg ymysg ei boblogaeth gynyddol oedrannus sy'n rhoi mwy o alwadau ar gapasiti gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. Dywedodd meddygon teulu mewn grwpiau ffocws fod y galw'n cynyddu oherwydd cynnydd mewn disgwyliadau oddi wrth gleifion ac oherwydd newidiadau mewn canllawiau. Ymysg enghreifftiau a godwyd ganddynt roedd:
- bod cleifion yn gofyn i feddygon teulu am sganiau MRI ar gyfer poen yng ngwaelod y cefn er y byddai ymgynghorydd yn llai tebygol o'u cyfeirio at gael sgan; ac
  - mae canllawiau Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Glinigol (NICE) yn datgan y dylai cleifion sydd â pheswch newydd a pharhaus am yn hwy na thair wythnos fynd i weld meddyg a gofyn am belydr-x ar y fron.
- 74 Mae ein hadroddiadau radioleg mewn byrddau iechyd eraill yn rhoi mwy o wybodaeth am y galw cynyddol am wasanaethau uwch-sain, CT ac MRI yn yr ysbytai a fynychir gan gleifion Powys.

## Mae canllawiau cyfeirio yn eu lle ac mae'r gwasanaeth yn cymryd camau cadarnhaol i leihau cyfeirio anaddas

- 75 Bydd meddygon teulu ac ymgynghorwyr yn cyfeirio cleifion i radioleg. Mae sicrhau fod cleifion yn cael eu cyfeirio at dderbyn yr ymchwiliad diagnostig mwyaf addas yn dibynnu ar arweiniad a safonau clir. Dylid seilio arweiniad ar offeryn iRefer<sup>20</sup> Coleg Brenhinol y Radiolegwyr a ddylai gefnogi gweithwyr meddygol proffesiynol sy'n cyfeirio cleifion i'r gwasanaeth i ddewis yr archwiliad(au) delweddu neu ymyriad mwyaf addas ar gyfer problem ddiagnostig neu ddelweddu benodol. Mae pob delwedd archwilio anaddas a wneir, i bob pwrpas, yn apwyntiad a wastraffwyd sy'n effeithio'n andwyol ar allu'r gwasanaeth i gwrdd â thargedau amseroedd aros y GIG ac anghenion cleifion mewn modd amserol.
- 76 Mae Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ym Maes Radiograffeg y Bwrdd Iechyd, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2015, yn amlinellu'r broses gyfeirio ar gyfer pelydr-x ac

<sup>19</sup> Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, **Information submitted to Health Education England workforce planning and education commission round 2015-16**

<sup>20</sup> Mae iRefer yn offeryn canllawiau ymchwilio radiolegol gan Goleg Brenhinol y Radiolegwyr.

uwch-sain a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cefnogi defnyddio Chweched Argraffiad Canllawiau Cyfeirio Coleg Brenhinol y Radiolegwyr 2007. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu canllawiau cenedlaethol Coleg Brenhinol y Radiolegwyr<sup>21</sup>. Gall pob aelod o staff sy'n feddygol gymwys gyfeirio cleifion heb fod angen unrhyw hyfforddiant pellach arnynt. Mae angen i gyfeirwyr anfeddygol ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ymgymryd â hyfforddiant addas a'u bod yn dilyn canllawiau cyfeirio lleol. Amlinellir y gofynion hyfforddi hyn yn Atodiad A y Gweithdrefnau Gweithredu Safonol.

- 77 Bydd cleifion yn cael mynediad i wasanaethau delweddu yn y Bwrdd Iechyd ar ôl cael eu cyfeirio yno gan eu meddyg teulu yn bennaf. Gwneir rhai cyfeiriadau anfeddygol ar gyfer archwiliadau delweddu gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill, fel nyrs-ymarferwyr a leolir yn yr unedau mân anafiadau. Fe arall, cyfeirir cleifion at ymgynghorydd a all yn ei dor eu cyfeirio i gael delwedd fel rhan o raglen o ddiagnosis a thriniaeth. Bydd meddygon teulu'n gwneud penderfyniad ynghylch ble i gyfeirio'u cleifion, yn seiliedig ar wybodaeth am restrau aros sydd ganddynt ynghylch ysbytai lleol.
- 78 Bydd meddygon teulu a chyfeirwyr anfeddygol yn llawn ffurflen ar gyfer cyfeiriadau pelydr-x ac uwch-sain diagnostig yn y Bwrdd Iechyd. Dywedodd meddygon teulu a radiograffwyr wrthym fod cyfeirwyr sefydledig yn gwybod sut i lenwi'r ffurflenni am eu bod wedi cael eu defnyddio ers cryn amser. Bydd radiograffwyr arolygol yn rhoi hyfforddiant i nyrs-ymarferwyr sydd newydd gael eu penodi, ac sy'n meddu ar statws cyfeiriwr anfeddygol, er mwyn sicrhau fod y ffurflenni'n cael eu llenwi'n gywir. Anogir cyfeirwyr i gysylltu â'r radiograffydd yn uniongyrchol os oes unrhyw ansicrwydd.
- 79 Nid oes dim prosesau cyfeirio electronig ar waith ar gyfer pelydr-x nac uwch-sain. Dywedodd meddygon teulu wrthym eu bod nhw'n anhapus nad oedd modd iddyn nhw gyfeirio cleifion yn electronig er bod gan y system weinyddu cleifion sydd gan feddygon teulu ddigon o gapasiti i argraffu cyfeiriad sy'n cynnwys yr holl fanylion. Mae hyn yn arwain at weld meddygon teulu'n gorfod argraffu sticeri cyfeiriad ac ysgrifennu ffurflen gyfeirio â llaw, sy'n cynyddu'r perygl o wneud camgymeriadau.
- 80 Fel rhan o'r peilot MRI symudol yn ne'r sir, darparodd y Bwrdd Iechyd arweiniad i feddygon teulu blaen o bob practis ar gyfer rhoi mynediad uniongyrchol wrth gyfeirio, ynghyd â sesiwn addysgu ar arfer dda ar gyfer cyfeirio diagnostig a ddarperir gan y Radiolegydd Ymgynghorol ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Hwylusodd y Bwrdd Iechyd sesiynau diagnostig pellach ar gyfer pob meddyg teulu er mwyn rhannu'r addysg hwn yn ehangach. Dywedodd meddygon teulu wrthym eu bod nhw'n croesawu'r hyfforddiant hwn.
- 81 Unwaith y bydd rhywun wedi cael ei gyfeirio, bydd radiolegydd neu radiograffydd sydd wedi'i hyfforddi'n addas yn cyfiawnhau (adolygu) y cyfeiriad yn ôl addasrwydd ac er mwyn penderfynu a oes mantais ddigonol i'r claf. Mae'r broses gyfiawnhau'n helpu i sicrhau nad yw cleifion yn agored i ymbelydredd diangen ac nad yw

<sup>21</sup> **Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, Making the best use of an Imaging Department, version 8, , 2012**

apwyntiadau'n cael eu gwastraffu. Gellir gwrthod cyfeiriad neu awgrymu archwiliad amgen mwy addas. Mae gweithdrefn gweithredu safonol D y Bwrdd Iechyd yn amlinellu rôl y radiograffydd wrth adolygu cyfeiriadau a'r ffurflen i'w dychwelyd at y rhai a wnaeth y cyfeiriad i ddweud pam y gwrthodwyd y claf.

- 82 Bydd radiograffwyr yn ymgymryd yn rheolaidd ag archwiliadau o ffurflenni cais oddi wrth gyfeirwyr anfeddygol a meddygon teulu. Roedd yr archwiliad mwyaf diweddar a nodwyd yng Nghynllun Archwilio Clinigol 2016-17 y Bwrdd Iechyd i fod i ddechrau ym mis Rhagfyr 2016 a'i gwblhau yn ystod Ionawr 2017. Ail-archwiliad yw hwn i sicrhau fod cydymffurfio'n digwydd â gofynion IR(ME)R. Adroddir yn ôl ar yr archwiliad i'r Cyfarfod Tîm Radiograffeg.
- 83 Mae ein hadroddiadau ar fyrddau iechyd eraill yn amlinellu sut y maen nhw'n ymdrin â chyfeiriadau anaddas a pha drefniadau archebu apwyntiad sydd ganddynt ar waith ar gyfer pob gwasanaeth diagnostig a ddarperir ganddynt. Maen nhw hefyd yn adrodd ar beryglon y gwahanol systemau cyfeirio papur-seiliedig y mae pob ysbyty'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Gallai cyfeirio electronig leihau rhai o'r peryglon hyn a chyflymu'r broses gyfeirio, ond dim ond un bwrdd iechyd sydd â chynlluniau buan i gyflwyno e-gyfeirio.

## **Mae gan y Bwrdd Iechyd weithlu gweithredu sefydlog ac nid yw wedi gweld dim anawsterau recriwtio ond mae cyfran arwyddocaol o'r staff o fewn pum mlynedd i ymeddeol o bosib**

- 84 Bydd radiolegwyr, radiograffwyr, nyrsys, staff technegol a gweinyddol yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau delweddu. Mae hi'n bwysig cael y nifer gywir a chymysgedd sgiliau ymysg staff i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi radiograffwyr, nyrsys, staff technegol a gweinyddol yn ei unedau radiograffeg. Nid yw'n cyflogi radiolegwyr na sonograffwyr ond mae'n prynu'u gwasanaeth i mewn oddi wrth fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau GIG cyfagos.
- 85 Darganfu ein hadolygiad fod lefelau staffio sefydliadol<sup>22</sup> cyfatebol i lawn amser (FTE) ymysg radiograffwyr yn y Bwrdd Iechyd wedi gostwng o 4.1% rhwng 2012 a 2016, o'i gymharu â chynnydd o 10.2% ledled Cymru, fel yr amlinellir yn Nangosyn 10.

<sup>22</sup> Y sefydliad staffio yw'r lefel o staff y mae'r Bwrdd Iechyd wedi penderfynu sydd angen arno i ddarparu gwasanaethau ac y mae cyllid wedi cael ei ryddhau ar eu cyfer.

## Dangosyn 10: Sefydliad cyflogaeth tueddol staff radioleg FTE yn y Bwrdd Iechyd o 2012 i 2016

Tabl yn dangos fod dirywiad byhcan wedi bod yn niferoedd y radiograffwyr yn 2016.

	2012	2013	2014	2015	2016	Newid canrannol 2012-2016
Radiograffwyr	8.1	8.5	8.9	8.2	7.7	-4.1%

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, **Arolwg Radioleg Bwrdd Iechyd**. Darperir data fel y mae ar 31 Mawrth bob blwyddyn.

86 Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod 79% o radiograffwyr yn 50 oed a hŷn a'u bod o fewn pum mlynedd i ymddeol mewn egwyddor (**Dangosyn 11**). Ni adroddodd y Bwrdd Iechyd unrhyw ofidiau gyda sefydliad presennol radiograffwyr er bod gwasgfeydd ar y gwasanaeth oherwydd absenoldeb salwch. Bu i'r Bwrdd Iechyd recriwtio radiograffwyr yn ddiweddar ac ni chawsant broblem i ddenu staff o ansawdd da.

## Dangosyn 11: nifer a chanran radiograffwyr yn ôl oedran ym Mehefin 2016

Tabl sy'n dangos fod gan y Bwrdd Iechyd ffigwr canrannol llawer uwch o radiograffwyr dros 50 oed o'i gymharu â ffigwr Cymru gyfan, a dim islaw 45 mlwydd oed.

		Oedran					
		Dan 39	40–44	45–49	50–54	55–59	60+
Radiograffwyr <sup>2</sup>	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	0 (0%)	0 (0%)	3 (21%)	4 (29%)	6 (43%)	1 (7%)
	<b>Cymru gyfan</b>	<b>473 (45%)</b>	<b>106 (10%)</b>	<b>103 (10%)</b>	<b>170 (16%)</b>	<b>125 (12%)</b>	<b>74 (7%)</b>

<sup>1</sup> Diffiniad gweithlu'r GIG: staff â chod gradd ymgynghorydd neu rôl swydd yn gweithio mewn radioleg – noder bod hyn yn cynnwys radiolegwyr diagnostig a thriniaethol.

<sup>2</sup> Diffiniad gweithlu'r GIG: Bandiau staff 5–9 â chod swydd radiograffeg ddiagnostig (S\*F).

Ffynhonnell: Gweithlu GIG Cymru, Gwasanaethau Addysg a Datblygiad, **Data cyfrifiad gweithlu'r GIG ar gyfer Mehefin 2016**, 2016

87 Comisiynwyd gwasanaeth dau sonograffydd diagnostig gan y Bwrdd Iechyd i weithio ar ei eiddo o fyrdau iechyd cyfagos. Er bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried cyflogi'i sonograffydd ei hun neu hyfforddi

radiograffwyr presennol i wneud uwch-sain diagnostig. Un dewis fyddai bod y Bwrdd Iechyd yn hyfforddi radiograffwyr / sonograffwyr ei hun a fyddai'n ateb yr angen am ddod o hyd i staff yn lle'r rhai sy'n bwriadu ymddeol ymhen ychydig flynyddoedd. Byddai angen i'r Bwrdd Iechyd ymdrin â'r gofynion llywodraethiant clinigol cyn cyflogi sonograffwyr ei hun, fel yr amlinellir yn y Canllawiau ar gyfer Ymarfer Uwch-sain Proffesiynol<sup>23</sup>.

- 88 Mae Strategaeth Tair Blynedd Triniaeth a Gwyddorau Iechyd 2015-18 y Bwrdd Iechyd yn dweud fod ganddynt ymrwymiad i wneud y gorau o sgiliau'r gweithlu er mwyn sicrhau fod mynediad ar gael i wasanaethau arbenigol mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn cynnwys datblygu rolau ymarferydd uwch i gefnogi ail-ddylunio llwybrau triniaeth, e.e. radiograffwyr a sonograffwyr sy'n gallu adrodd yn ôl. Yn ein harolwg o radiograffwyr fe fu i ni holi a fyddai ganddyn nhw ddiddordeb mewn datblygu rolau ymarferwyr uwch pe bai'r cynnig yn cael ei roi. Dywedodd rhai ohonynt y gallai fod ganddynt ddiddordeb yn y dyfodol er na fyddent am ymgymryd â hynny ar hyn o bryd am wahanol resymau.
- 89 Mae ein hadroddiadau radioleg mewn byrddau iechyd eraill yn tynnu sylw at ystod o faterion sy'n ymwneud â recriwtio, prinder staff a dibyniaeth ar locums. Maen nhw hefyd yn darparu gwybodaeth am y nifer o archwiliadau sy'n digwydd gan bob radiolegydd a radiograffydd cyfwerth â FTE fel mesur o addasrwydd y nifer o staff mewn swydd i gwrdd â'r galw.

## Er bod staff yn ymgymryd â gwerthusiadau rheolaidd, ac yn meddu ar gynlluniau datblygu personol, mae cydymffurfio â hyfforddiant mandadol yn is na'r targed

- 90 Mae gwerthuso perfformiad staff yn flynyddol, ac adolygiadau datblygiad proffesiynol parhaus yn rhan bwysig o sicrhau fod ansawdd uchel gwasanaethau radioleg yn cael ei gynnal a bod anghenion hyfforddi staff yn cael ei ymdrin ag ef yn gywir.
- 91 Bu i bob aelod o staff yn y Bwrdd Iechyd ymgymryd â gwerthusiad blynyddol o'i berfformiad, neu dderbyn cynllun datblygu personol yn 2015-16<sup>24</sup>. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw cofrestr o bob ymarferydd cofrestredig a gweithredwyr sy'n gymwys i gynnal dangosiadau meddygol, gan gynnwys y dyddiad y cwblhawyd yr hyfforddiant a natur yr hyfforddiant a wnaed.
- 92 Mae cydymffurfio â hyfforddiant mandadol a statudol a amlinellir yn Fframwaith Sgiliau Craidd a Hyfforddi'r DU (naw sgil craidd) yn is na'r targed (**Dangosyn 12**). Targed y Bwrdd Iechyd ar gyfer cydymffurfio â hyfforddiant mandadol yw 85% ac

<sup>23</sup> Cymdeithas a Choleg y Radiograffwyr a'r Gymdeithas Feddygol Brydeinig Uwch-sain, **Canllawiau ar gyfer Ymarfer Uwch-sain Proffesiynol**, Rhagfyr 2015.

<sup>24</sup> Derbyniodd 100% o radiograffwyr a 100% o staff radioleg eraill werthusiad o'u perfformiad. Cafodd 92% o radiograffwyr a 100% o staff radioleg eraill gynllun datblygiad personol wedi'i gwblhau yn 2015-16.

mae gan y Bwrdd Iechyd Raddfa Cydymffurfio ar gyfer y staff cyfan o 71.48%. Serch hynny, mae radiograffwyr ond yn cwrdd â'r targed 85% hwnnw yn un o'r naw sgîl craidd yn unig. Mae'n arbennig o werth nodi lefel isel yr hyfforddiant mewn dadebru a llywodraethiant gwybodaeth.

**Dangosyn 12: canran o staff sy'n cydymffurfio â modiwlau hyfforddi statudol a mandadol, ym mis Gorffennaf 2016.**

Tabl sy'n dangos nad yw radiograffwyr yn cydymffurfio â phob modiwl hyfforddi statudol a mandadol.

	Radiograffwyr	Staff eraill yr adran radioleg
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol	83%	67%
Iechyd, Diogelwch a Llesiant	83%	67%
Diogelwch Tân	67%	83%
Atal a Rheoli Heintiau	92%	83%
Symud a Dal	75%	100%
Diogelu Oedolion	67%	50%
Diogelu Plant	75%	67%
Dadebru	42%	17%
Llywodraethiant gwybodaeth	33%	67%

**Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg Bwrdd Iechyd Radioleg**

- 93 Mae ein hadroddiadau ar wasanaethau radioleg mewn byrddau iechyd eraill yn cynnwys gwybodaeth ar gyfraddau gwerthuso a hyfforddi staff sy'n tynnu sylw at y ffaith nad yw targedau hyfforddi'n cael eu cwrdd mewn rhai meysydd a bod mynediad i hyfforddiant yn cael ei gyfyngu gan gyfyngiadau staffio.

## Bydd offer yn cael ei ddiweddarau cyn bo hir, ond mae angen ymdrin ag arweiniad, monitro perfformiad ac isadeiledd gwybodaeth fel rhan o gynlluniau'r Bwrdd Iechyd i drawsnewid gwasanaethau diagnostig

### Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n dechrau datblygu'i strategaeth ddiagnostig fel rhan o'i uchelgais ehangach i ddod â gwasanaethau'n nes at adref

- 94 Dylai'r Bwrdd Iechyd feddu ar gynllun strategol clir. Dylai'r cynllun amlinellu sut y bydd yn cwrdd â'r galw presennol am wasanaethau radioleg a'r galw yn y dyfodol. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd adnabod maint y galw cynyddol am bob math o ddelweddu diagnostig, gan gynnwys sganio MRI a CT, a sut y mae'n bwriadu cwrdd â hynny fel rhan o ddatblygu'i gynllun strategol ar gyfer gwasanaethau diagnosteg ar gyfer poblogaeth Powys dros y pum mlynedd nesaf.
- 95 Amlinellir rhai blaenoriaethau radioleg yng Nghynllun Integredig Tymor Canolig (IMTP) y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-19, sy'n cefnogi amcan y Bwrdd Iechyd o gael 'Gwell mynediad i asesu diagnostig, triniaeth a gwasanaethau adfer iechyd a ddarperir yn lleol'. Mae'r IMTP yn gwneud y glir mai bwriad cryf y Bwrdd Iechyd yw datblygu yn ystod 2016-17 Strategaeth Ddiagnosteg sy'n edrych ar bob dull o ddarparu ac sy'n disgrifio'r hyn y gellir ei ddarparu ac y dylid ei ddarparu i'r boblogaeth dros y cyfnod o ddwy i bum mlynedd nesaf.
- 96 Dechreuodd y Bwrdd Iechyd ddatblygu'i strategaeth ddiagnostig ym mis Ebrill 2016 fel rhan o'r Cynllun Moderneiddio Diagnostig oddi mewn i'r Rhaglen Ddarparu Gofal Cynradd a Chymunedol. Y bwriad yw datblygu a gweithredu strategaeth gwasanaethau diagnostig ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn darparu gwasanaethau o fewn y sir ar gyfer pobl Powys ac i gefnogi datblygu pob gwasanaeth iechyd yn y sir. Amcanion y prosiect yw:
- Darparu gwarantu ansawdd ar gyfer llwybrau diagnostig
  - Sicrhau fod cyfeiriadau addas yn digwydd a lleihau cyfeiriadau anaddas ar gyfer gwasanaethau diagnostig
  - Ail-wladoli gwasanaethau diagnostig i Bowys ble bo'n addas ac yn unol â'r strategaeth
  - Comisiynu gweithgaredd diagnostig sy'n weddill mor agos i gartref â phosib a chadw gwasanaethau o ansawdd da drwy gyfrwng gweithgaredd a gomisiynir.
- 97 Bydd y Cynllun Moderneiddio Diagnostig a'r llyf gwaith pelydr-x ffilm plaen yn adolygu ac yn diwygio pob SLA y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu dal ar hyn o bryd gyda sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau diagnostig.

- 98 Mae absenoldeb strategaeth glir ar gyfer gwasanaeth radioleg y Bwrdd Iechyd wedi cyfyngu ar ei allu i amlinellu cynlluniau gweithredu cadarn. Dylai pob gwasanaeth radioleg gael cynllun gweithredu / darparu blynyddol a gytunwyd arno ac a ddogfennwyd. Dylai'r cynllun ddangos yn glir y galw am y gwasanaeth, y gweithlu a'r capasiti offer sydd ei angen i gyflenwi'r gwasanaeth yn ddiogel, yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae gwaith ar droed i ddatblygu'r cynlluniau hyn fel rhan o brosesau cynllunio a chomisiynu ehangach y Bwrdd Iechyd drwy gyfrwng yr IMTP a datblygiadau Cynlluniau Iechyd a Gofal.
- 99 Dylid addysgu cynlluniau gweithredu radioleg gan newidiadau gwasanaeth a datblygiadau yn y sefydliad ehangach. Mae bron bob arbenigedd clinigol yn dibynnu'n drwm ar radioleg i helpu i roi diagnosis i glefyd neu anaf, ac i'w drin a'i fonitro. Dylai staff radioleg felly, fod yn cael eu cynnwys yn addas ymhob penderfynu a wneir ar ddatblygiadau i'r gwasanaeth a fydd yn arwain at gynydd yn nifer y cleifion a gyfeirir ar gyfer delweddu radioleg, fel yn achos swyddi ymgynghorwyr newydd, clinigau newydd a gwasanaethau newydd.
- 100 Ledled Cymru darganfu ein hadolygiad fod amrywiaeth yn bodoli yn y graddau yr oedd timau radioleg yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau a wnaed y tu allan i'r tîm a oedd yn effeithio ar wasanaethau radioleg, Yn y Bwrdd Iechyd, nid oes Pennaeth Radiograffeg yn bodoli, sydd wedi cyfyngu ar ymwneud radiograffeg mewn datblygu gwasanaeth er bod y ddau Uwch-radiograffydd wedi bod yn rhan o ddatblygu'r strategaeth ddiagnostig.
- 101 Mae ein hadroddiadau radioleg mewn byrddau iechyd eraill yn darparu gwybodaeth am gynllunio strategol ar gyfer gwasanaethau diagnostig. Dengys yr adroddiadau hyn fod byrddau iechyd wrthi yn y cyfnod cynnar o gynllunio ar gyfer cyfeiriad ei gwasanaethau diagnostig ar gyfer y dyfodol.

## Mae atebolrwydd rheolwyr yn glir ar lefel gwasanaeth, er bod absenoldeb pennaeth y gwasanaeth yn golygu fod rhai cyfrifoldebau'n dal heb eu hateb

- 102 Mae arweinyddiaeth effeithiol a llinellau atebolrwydd clir yn gydrannau hanfodol mewn unrhyw wasanaeth gofal iechyd. Mae Radioleg yn wasanaeth cymhleth sy'n cynnwys radiolegwyr, radiograffwyr a staff nyrsio syn cydweithio i gynhyrchu a dehongli delweddu. Er mwyn i fwrdd iechyd ddarparu gwasanaethau radioleg effeithiol, mae angen arweiniad gweithredol clir arno, arweinydd gwasanaeth penodedig â gorolwg, a strwythur gweithredu a rheoli proffesiynol clir â llinellau atebolrwydd clir. Mae angen hefyd iddo gael capasiti digonol i gwrdd â'r galw ar y gwasanaeth a'r angen amdano mewn dull diogel ac effeithiol.
- 103 Rheolir y gwasanaeth radioleg yn weithredol oddi mewn i'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Cynradd, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, tro bo rheoli proffesiynol yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng Cyfarwyddiaeth Triniaethau a Gwyddorau Iechyd. Prif Therapydd y Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am radiograffeg, er nad yw hi'n radiograffydd.



- 104 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael trafferth ers sawl blwyddyn i recriwtio a chadw pennaeth radiograffeg proffesiynol. Mae'r swydd yn wag ar hyn o bryd er bod y bwrdd Iechyd wedi ceisio llenwi'r swydd ers i'r deiliad diwethaf adael yn 2015. Mae trefniadau amgen i ddarparu cefnogaeth broffesiynol yn eu lle oddi wrth fyrdau Iechyd cyfagos, ond mae diffyg cael pennaeth a gyflogir yn lleol yn achosi anawsterau. Cododd yr archwiliad IR(ME)R yr adroddwyd arno'n ddiweddar bryderon ynghylch y trefniant hwn, ac mae wedi argymhell fod y Bwrdd Iechyd yn rhoi diweddariad i HIW ar y cynnydd wrth benodi Pennaeth Radiograffeg Proffesiynol a manylion ynghylch sut y mae'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swydd hon yn cael eu cyflawni'n effeithiol yn y cyfnod llenwi. Gwaethygydd y broblem oherwydd swydd wag dros 12 mis o gyfnod yn rôl Cyfarwyddwr Gweithredol Triniaethau a Gwyddorau Iechyd, er y llenwyd y swydd hon ym mis Medi 2016.
- 105 Mae trefniadau ar gyfer y gwasanaeth islaw swydd y Pennaeth Radiograffeg yn glir. Mae'r ddau Uwch Radiograffydd yn gyfrifol am y timau staff radiograffwyr a leolir yn y lleoliadau gogledd a de. Canfu ein harolwg o radiograffwyr eu bod nhw'n glir ynghylch y trefniadau o fewn i'w timau lleol ond nid uwchlaw hynny. Cododd radiograffwyr ofidiau nad oedd ganddynt drefniadau yn eu lle i gwrdd ag absenoldebau goruchwylwyr, gan dynnu sylw at ba mor fregus yw'r trefniadau.
- 106 Mae ein hadroddiadau radioleg ar gyfer byrddau Iechyd eraill yn amlinellu'r trefniadau rheoli amrywiol.

## Cynrychiolir radioleg ar bwyllgorau allweddol ar gyfer perfformiad ac ansawdd a diogelwch

- 107 Os yw radioleg i gael proffil digon uchel o fewn y Bwrdd Iechyd, dylai staff radioleg gael presenoldeb rheolaidd ar bwyllgorau allweddol y bwrdd Iechyd, fel y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Gweithlu a Datblygu Sefydliad. Mae'r Cyfarwyddwr Triniaethau a Gwyddorau Iechyd, fel arweinydd proffesiynol y radiograffwyr yn fynychwr cyson yn y ddau bwyllgor.
- 108 Ledled Cymru, bu i ni ddarganfod amrywiaeth yng nghyfran cynrychiolaeth y tîm radioleg ar bwyllgorau allweddol y bwrdd. Bu i ni ganfod fod y gwasanaeth radioleg yn cael ei gynrychioli ar bwyllgorau allweddol y bwrdd ar lefel lleoliad gan y Pennaeth Triniaethau am fod y Bwrdd Iechyd wedi methu â phenodi Pennaeth Radiograffeg.
- 109 Dylai Radioleg gael sylw yn ddigon aml ar agendau pwyllgorau er mwyn helpu i sicrhau fod ymwybyddiaeth ehangach o'r gwasanaeth a'i broblemau. Adroddodd y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad ym mis Tachwedd 2016 ar oedi wyth wythnos o hyd am ddiagnosteg. Tynnodd sylw at y ffaith fod y Bwrdd Iechyd wedi cwrdd â'r targed dros y chwe mis diwethaf heb i'r un claf orfod aros wyth wythnos.
- 110 Derbyniodd y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch ym mis Chwefror 2016 adroddiad diweddar IR(ME)R ac ymateb y rheolwyr a dynnodd sylw at weithgareddau'r gwasanaethau radiograffeg ym Mhowys. Mae'r Pwyllgor hefyd

wedi amserlennu Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Amlygrwydd Meddygol ar ei raglen fusnes flynyddol.

- 111 Mae ein hadroddiadau radioleg mewn byrddau iechyd eraill yn tynnu sylw at y gwahanol lefelau o ymwneud sydd gan staff radioleg ar bwyllgorau allweddol.

## Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf nid yw'r gyllideb radiograffeg wedi newid ac mae'r gwasanaeth wedi tanwario ar ei gyllideb

- 112 Mae angen monitro ariannol parhaus ar gyfer gwasanaethau radioleg i sicrhau fod y gwasanaeth yn gweithredu o fewn y gyllideb, er mwyn rhagweld unrhyw orwario posib yn y gyllideb, ac i weithredu i atal hynny ble bo angen. Dengys **Dangosyn 13** fod y gyllideb ar gyfer gwasanaethau radioleg ar gyfer 2015-16 yr un peth ag ar gyfer 2014-15 tra bo gwariant yn dangos tanwariant o £75,000 yn 2014-15 a £113,000 yn 2015-16.

### Dangosyn 13: cymhariaeth rhwng cyllideb gwasanaeth radioleg a gwariant (£ miliwn) 2014-15 a 2015-16

Tabl sy'n dangos amrywiad rhwng cyllideb gwasanaeth radioleg a gwariant go iawn. Yn 2014-15 a 2015-16 fel ei gilydd, roedd gwariant yn llai na'r gyllideb ddynodedig.

		2014-15	2015-16
Bwrdd Iechyd	Cyllideb (£ miliwn)	2.111	2.112
	Gwariant (£ miliwn)	2.036	1.999
	Amrywiad	-3.6%	-5.4%

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, **Arolwg Bwrdd Iechyd Radioleg**

- 113 Cynhwysir arbedion cost fel rhan o'r dyraniad cyllideb cyfan ar gyfer radiograffeg. Mae deiliaid y gyllideb yn gyfrifol am wneud yr arbedion hyn ac ymgymerir â monitro ariannol ar lefel lleoliad.
- 114 Mae ein hadroddiadau radioleg mewn byrddau iechyd eraill yn amlinellu'u heriau a'u hanawsterau ariannol nhw wrth gyflawni cynlluniau gwelliannau mewn costau.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi cyllid cyfalaf i ddiwygio cyfleusterau pelydr-x ac uwch-sain

- 115 Mae angen i gyrff GIG gael trefniadau llawn yn eu lle ar gyfer cynnal a chadw ac adnewyddu offer delweddu radioleg. Mae offer delweddu hyn o dan fwy o berygl o fethu ac mae costau cynnal a chadw'n cynyddu, a safon y ddelwedd yn lleihau ag oedran. Ystyrir fod offer radioleg sydd yn hyn na deg mlwydd oed yn gyffredinol bellach ddim yn gyfoes a bydd datblygiadau technegol yn peri fod yr offer yn ddiwerth. Mae oes offer yn byrhau po fwyaf y defnyddir ef.

- 116 Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen adnewyddu offer ar hyn o bryd. Cafodd ei gychwyn yn 2007 fel rhan o 'Adolygiad Strategol o Offer Diagnostig' a ymgwymerwyd gan Ystadau Iechyd Cymru. Diweddarwyd y cynnwys yn 2015 er nad yw'n cynnwys unrhyw fanylion oni bai am y dyddiad y bwriedir i'r offer gael ei adnewyddu. Dangosodd y rhaglen y byddai angen adnewyddu offer uwch-sain a phelydr-x ymhob ysbyty erbyn 2017-18, heblaw am y Trallwng, ble gosodwyd offer pelydr-x newydd a gwneud gwaith ystadau cysylltiedig yn 2014-15.
- 117 Mae Cymdeithas Radioleg Ewrop<sup>25</sup> yn hyrwyddo bod offer:
- hyd at bum mlwydd oed yn adlewyrchu stad bresennol technoleg, a bod modd ei ddiweddarau;
  - rhwng chwech a deng mlwydd oed yn addas i'w ddefnyddio os yw'n cael ei gynnal a'i gadw'n addas, ond bod angen cael strategaethau adnewyddu yn eu lle; a bod offer
  - 11 mlwydd oed neu hŷn angen ei adnewyddu.
- 118 Ym mis Tachwedd 2015, rhagwelodd GIG Cymru y byddai angen adnewyddu 87% o sganwyr arannau delweddu ledled Cymru erbyn 2017<sup>26</sup>. Dengys **Dangosyn 14** fod pob un o'r sganeri yn y Bwrdd Iechyd yn bum mlwydd oed neu iau.

<sup>25</sup> Cymdeithas Radioleg Ewrop, **Adnewyddu Offer Radioleg**, Medi 2014

<sup>26</sup> Rhaglen Gwasanaeth Diagnostig GIG Cymru, **All Wales Gantry (MRI, CT, Gamma Camera and Ultrasound) Usage/Capacity**, Tachwedd 2015

#### Dangosyn 14: oedran offer US yn y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2016

Tabl sy'n dangos fod pob un o sganeri'r Bwrdd Iechyd o fewn yr ystod dderbyniol ar gyfer oes ddisgwyliedig offer, heb fod un yn hŷn na phum mlwydd oed o'i gymharu â disgwyl oes weithredol o saith mlynedd ar gyfer defnydd uchel.

	Lleoliad	US
Oedran offer sganio yn y Bwrdd Iechyd (blynyddoedd) <sup>1</sup>	Ysbyty Coffa Aberhonddu	5
	Ysbyty Llandrindod	3
	Ysbyty Sirol Trefaldwyn	3
	Ysbyty Coffa Victoria	4
	Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais	3
Oes weithredol ddisgwyliedig yn ddibynnol ar ddefnydd (blynyddoedd)	Uchel	7
	Canolig	8
	Isel	9

<sup>1</sup> Ble ceir mwy na phum sganiwr, darparwyd yr oedran ar gyfartaledd.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, **Arolwg Oedran Offer Radioleg**; a Chymdeithas Radioleg Ewrop, **Adnewyddu Offer Radioleg**, Medi 2014 (oes ddisgwyliedig gyfartalog dyfais)

119 Ni fu dim gwariant cyfalaf ar offer pelydr-x nag uwch-sain yn ystod 2015-16. Ar gyfer 2016-17, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd gais i Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith offer ac isadeiledd a amlinellir yn y tabl yn **Nangosyn 15** sy'n berthnasol i belydr-x ac uwch-sain. Cyfanswm cyffredinol y cais oedd swm o £680,000. Bu'r cais yn llwyddiannus a chadarnhawyd cyllido'r £680,000 llawn ar 26 Awst 2016. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad wrth y Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad ym mis Ionawr 2017 fod gwaith ar y cynlluniau hyn yn mynd rhagddo yn ôl y cynllun. Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yw'r Rhaglen Gyfalaf ac mae'n cael ei fonitro gan y Bwrdd Gwella Cyfalaf ac Eiddo.

**Dangosyn 15: gwariant cyfalaf ar gyfer offer pelydr-x ac uwch-sain a gwaith cysylltiedig 2016-17**

Tabl sy'n dangos ble y bydd y buddsoddiad cyfalaf o £680,000 mewn pelydr-x ac uwch-sain yn cael ei wario.

Ysbyty	Offer	Manyllyn	Dyddiad y dylid adnewyddu	Cost £'000
Ysbyty Coffa Aberhonddu	Peiriant uwch-sain	Cyfnewid Uniongyrchol	2016-17	£80
Ysbyty Coffa Victoria, Y Trallwng	Peiriant uwch-sai	Cyfnewid Uniongyrchol	2016-17	£80
Ysbyty Sirol Trefaldwyn, Y Drenewydd	Peiriant uwch-sain	Cyfnewid Uniongyrchol	2017-18	£80
Ysbyty Coffa Llandrindod	Peiriant uwch-sain	Cydweddu â Chyn-geni	N/A	£80
Ysbyty Sirol Trefaldwyn, Y Drenewydd	Peiriant Pelydr-x	Cyfnewid Uniongyrchol	2012-13	£80
	Adnewyddu Ystafell Pelydr-x	Isadeiledd		£100
Ysbyty Cymunedol Ystradgynlais	Peiriant Pelydr-x	Cyfnewid Uniongyrchol	2014-15	£80
	Adnewyddu Ystafell Pelydr-x	Isadeiledd		£100
<b>Cyfanswm</b>				<b>£680</b>

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Rhaglen Gyfalaf 2016, **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad i'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad**, Medi 2016 a diweddariad Rhaglen Adnewyddu Offer, Mehefin 2015.

120 Mae gan ein hadroddiadau radioleg mewn byrddau iechyd adran ar niferoedd y sganeri sydd ar gael fesul pob aelod o'r boblogaeth. Maen nhw'n darparu gwybodaeth ynghylch pa mor dda y mae'r byrddau iechyd yn defnyddio capasiti CT ac MRI hyd yr eithaf. Mae'r adroddiadau hefyd yn rhoi gwybodaeth ar eu rhaglenni adnewyddu offer.

## Mae systemau radioleg gwahanol ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd, ac er bod pob un ohonynt yn gweithio'n dda yn gyffredinol, mae isadeiledd TG y Bwrdd Iechyd yn fregus

- 121 Mae cael systemau TG effeithiol yn chwarae rôl ganolog wrth ddarparu gwasanaethau radioleg effeithiol. Yng Nghymru mae'r System Wybodaeth Radioleg (RADIS) yn system genedlaethol a grëwyd ac a redir gan Wasanaeth Infformateg GIG Cymru. Fe'i defnyddir gan bob bwrdd iechyd. Mae RADIS yn cefnogi amserlennu archwiliadau radioleg, yn darparu cofnod clinigol o sganiau a dderbyniwyd gan gleifion ac mae'n gadael i fyrddau iechyd greu adroddiadau ac ystadegau am berfformiad. Mae systemau eraill yn cysylltu â RADIS er mwyn darparu ffwythiannedd ychwanegol; rhaid i'r systemau gwahanol hyn integreiddio'n dda â'i gilydd er mwyn sicrhau fod gwybodaeth yn trosglwyddo ac yn diweddarau'n hawdd rhwng systemau.
- 122 Darganfu ein hadolygiad fod gan fyrddau iechyd farn gymysg am RADIS ledled Cymru. Dywedodd rhai byrddau iechyd wrthym eu bod yn teimlo fod RADIS yn ddigonol o ran amserlennu cleifion, adrodd clinigol ac adrodd ym maes rheoli. Serch hynny, mynegodd rhai byrddau iechyd ofidiau nad yw RADIS yn integreiddio â systemau eraill a ddefnyddir gan fyrddau iechyd, a hefyd am ansawdd yr adrodd ar reoli, cyfyngiadau yn yr adrodd clinigol a'r ffwythiannau adrodd ym maes rheoli.
- 123 Gall systemau ceisio electronig alluogi clinigwyr sy'n cyfeirio cleifion ar gyfer delweddu diagnostig i wneud cais am a derbyn diweddariadau a deilliannau ceisiadau radioleg yn gyflym, Yng Nghymru mae ffwythiannedd meddalwedd ymgeisio fel arfer wedi'i gyfyngu i ddarparu templed ar gyfer cais, y mae'n rhaid ei e-bostio wedyn i'r gwasanaeth radioleg.
- 124 Bydd pob bwrdd iechyd yn defnyddio Systemau Archifo Lluniau a Chyfathrebu (PACS). Mae meddalwedd PACS yn derbyn ac yn archifo delweddu radioleg yn electronaidd, ac yn galluogi dosbarthu'r ddelwedd yn ddiogel ymysg gweithwyr iechyd proffesiynol eraill<sup>27</sup>. Mae'r adroddiad a'r ddelwedd sgan gyda'i gilydd yn darparu cofnod clinigol o'r ddelwedd. Wrth adrodd ar ddelweddu, gall radiolegwyr ddewis defnyddio systemau cofnodi sy'n gweithredu â llais i gofnodi'u hadroddiad.
- 125 Mae gwasanaethau radiograffeg y Bwrdd Iechyd yn defnyddio systemau gwahanol yn dibynnu ble y'i lleolir yn y sir a pha ysbyty sy'n darparu'u gwasanaethau radiolegydd. Systemau radioleg craidd y Bwrdd Iechyd yw RADIS yn y Gogledd (Y Trallwng, Y Drenewydd a Machynlleth) ac Aberhonddu; Carestream yn Llandrindod; a Radcare yn Ystradgynlais. Cysylltir pob safle â systemau PACS a leolir yn yr ysbyty cyffredinol ardal gyfagos.

<sup>27</sup> Darperir PACS gan drydydd parti, sef, Fujifilm. Mae Fujifilm yn cyflenwi caledwedd a meddalwedd i fyrddau iechyd ar gyfer darparu gwasanaethau PACS, gan gynnwys adnabod lleisiau a datrysiadau llawn o ran adfer ar ôl trychineb. Mae pob bwrdd iechyd dyn darparu seilwaith angenrheidiol i redeg y gwasanaethau hynny, gan gynnwys rhwydweithiau a lle gweinydd.

- 126 Mynegodd y Bwrdd Iechyd ofid fod fersiynau gwahanol o RADIS yn cael eu defnyddio ledled Powys. Yn y Gogledd, dywedodd y radiograffwyr fod RADIS yn gweithio'n dda yn gyffredinol, gan alluogi trosglwyddo delweddau'n electronig i'r radiologydd yn Wrecsam. Mae gan y Bwrdd Iechyd a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr borth cyfnewid delweddau ar waith, sy'n golygu y gallant anfon y ddelwedd i unrhyw le waeth pa system PACS a ddefnyddir. Gall y radiograffwyr anfon eu delweddau i rai ysbytai ond nid i bob un. Bydd sawl claf sy'n cael pelydr-x cychwynnol yn Ysbyty'r Trallwng yn mynd i'r clinig toriadau asgwrn yn Wrecsam, felly bydd angen anfon y ddelwedd ymlaen yno.
- 127 Darganfu ein harolwg o radiograffwyr nad oedd gan y rhan fwyaf ddim problemau gyda meddalwedd RADIS a PACS, ond adroddodd un am broblemau oherwydd hen fersiynau o'r feddalwedd, a'r parhad yn y defnydd o Windows XP, a phroblemau rhwydweithio ar draws y Bwrdd Iechyd<sup>28</sup>. Er i ni glywed fod RADIS yn gweithio'n dda ar y cyfan, mae problemau'n codi weithiau oherwydd bod isadeiledd IM&T y Bwrdd Iechyd yn fregus. Yn ogystal, dim ond un person cefnogi sydd gan y Bwrdd Iechyd sy'n adnabod RADIS, sy'n gallu arwain at anawsterau wrth gael cefnogaeth os nad yw'r person hwnnw ar gael. Rhestrir y diffyg cefnogaeth arbenigol i'r system radiolegol fel perygl ar y gofrestr risg adrannol, ac er bod cais wedi cael ei wneud ar gyfer person cefnogi clinigol, nid yw wedi cael ei ddarparu.
- 128 Mae ein hadroddiadau radioleg mewn byrddau Iechyd eraill yn tynnu sylw at ofidiau gyda systemau gwybodaeth radioleg ac isadeiledd IM&T o dan yr wyneb.

## Methiannau o ran amseroedd aros yw'r unig wybodaeth perfformiad a dderbyniwyd gan y Bwrdd o ran gwasanaethau radioleg

- 129 Mae monitro a chraffu ar berfformiad y gwasanaeth radioleg yn bwysig wrth asesu a yw'r gwasanaeth yn cefnogi darparu nodau ac amcanion y sefydliad, ac wrth adnabod yr angen i weithredu'n adferol. Dylai byrddau Iechyd ddefnyddio data perfformiad a chanlyniadau archwiliadau i fonitro a gwerthuso darparu deilliannau a pherfformiad adrannau radioleg. Dylai monitro ac adolygu perfformiad ddigwydd ar bob lefel yn y sefydliad, o'r lefel weithrediadol hyd at lefel y bwrdd. Dylid dadansoddi, asesu a monitro perfformiad ar lefel weithredol a'i adrodd yn ôl a chraffu arno gan bwyllgorau bwrdd Iechyd perthnasol a'r bwrdd.
- 130 Mae meincnodi'n galluogi sefydliadau Iechyd i wella perfformiad drwy gymharu â sefydliadau tebyg eraill. Un ffynhonnell o ddata cymharol y gall byrddau Iechyd gael mynediad iddo yw data radioleg Rhwydwaith Meincnodi'r GIG (NHSBN). Mae'r NHSBN yn casglu ac yn dadansoddi data radioleg oddi wrth sefydliadau ac ymddiriedolaethau Iechyd ledled y DU yn flynyddol gan gyhoeddi dadansoddiad o'i

<sup>28</sup> Ar adeg ein hadolygiad, yr oedd y Bwrdd Iechyd heb uwchraddio o Windows XP i Windows 7, ac felly, achos materion ynghylch cydweddoldeb, yr oedd yn gorfod defnyddio fersiwn hŷn o PACS, nes bod yr uwchraddio wedi'i gyflawni.

ganfyddiadau. Mae pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru yn aelodau o'r NHSBN ond nid yw pob un yn cymryd rhan ymhob un archwiliad.<sup>29</sup> Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn archwiliad radioleg yr NHSBN am nad ydyn nhw'n darparu'r ystod lawn o wasanaethau delweddu. Serch hynny, mae hyn yn golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu cymharu'i berfformiad â pherfformiad sefydliadau gofal iechyd eraill.

- 131 Mae cyfanswm nifer y cleifion diagnostig a'r nifer o gleifion sy'n methu targed wyth wythnos ar gyfer triniaeth ddiagnostig benodol yn ysbytai'r Bwrdd Iechyd yn cael eu hadrodd fel rhan o adroddiad perfformiad integredig (IPR) y Bwrdd Iechyd<sup>30</sup>. Mae'r IPR hwn hefyd yn darparu data ar niferoedd y cleifion sy'n aros mwy nag wyth wythnos ymhob bwrdd iechyd yng Nghymru er nad oes ganddynt unrhyw awgrym sawl claf a effeithir ym Mhowys. Adolygir yr IPR ymhob cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad ac nid ydynt wedi methu'r targed ers mis Mawrth 2016.
- 132 O ystyried yr wybodaeth a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd, nid yw'n glir a adroddir unrhyw wybodaeth perfformiad arall am y gwasanaeth radioleg. Meysydd eraill y gellid adrodd arnynt yw amseroedd adrodd, lefelau gweithgaredd cyffredinol a niferoedd y cleifion nad ydyn nhw'n mynychu apwyntiadau (DNAs)
- 133 Mae ein hadroddiadau radioleg mewn byrddau iechyd eraill yn rhoi gwybodaeth ar y modd y maen nhw'n adrodd a monitro ar berfformiad radioleg.

<sup>29</sup> Nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda na Bwrdd Iechyd Addysgu Pwoys yn cymryd rhan yn y modiwl radioleg, nac yn darparu data ar ei gyfer.

<sup>30</sup> Mae'r adroddiad perfformiad integredig yn amlinellu perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn targedau a mesurau a chynnydd Fframwaith Deilliannau GIG Llywodraeth Cymru 2016-17 ar weithredu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.



# Atodiad 1

## Dull Archwilio

Bu i ni gynnal sawl gweithgaredd archwilio rhwng mis Mehefin 2016 a mis Medi 2016. Amlinellir manylion y rhain isod.

### Dangosyn 16: dull o fynd ati i archwilio

Tabl yn amlinellu'r dull o fynd ati i archwilio a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad hwn.

Dull	Manylion
Casglu gwybodaeth a data	<p>Bu i ni ddefnyddio ffurflenni arolwg lefel bwrdd iechyd a safle ysbyty i ddal data a gwybodaeth am wasanaethau radioleg, a gwblhawyd gan y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Fe wnaethom ni hefyd ddefnyddio data a gwybodaeth oddi wrth nifer o ffynonellau eraill, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Stats Cymru: Amseroedd Aros Radioleg Diagnostig</li><li>• Data System Gofnodi a Dysgu Cenedlaethol (NRLS): digwyddiadau diogelwch cleifion</li><li>• HIW IR(ME)R (Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Mewn Sefyllfa Feddygol): digwyddiadau diagnostig gan y bwrdd iechyd rhwng 2010 a 2016</li></ul>
Cais am ddogfennaeth	<p>Bu i ni wneud cais ac adolygu dogfennau oddi wrth y Bwrdd Iechyd gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• telerau cyfeirio ac aelodaeth prif gwrp radioleg y Bwrdd Iechyd, ynghyd â sampl o gofnodion o'r cyfarfodydd blaenorol;</li><li>• enghreifftiau o ddogfennau llwybr cyflwr (ar gyfer strôc, canser neu glefyd y galon) yn dangos gofynion darpariaeth gwasanaethau radioleg;</li><li>• papurau radioleg perthnasol i'r bwrdd a'r pwyllgorau ynghyd â phapurau gweithredol gan gynnwys adroddiadau diogelwch;</li><li>• enghreifftiau o adroddiadau perfformiad neu gardiau sgorio perfformiad prif wasanaeth radioleg y bwrdd Iechyd dros y chwe mis diwethaf;</li><li>• yr adroddiad ariannol mwyaf diweddar yn dangos cynnydd tuag at y cynllun gwella costau / cynilion;</li><li>• y cynllun adnewyddu offer radioleg;</li><li>• y gofrestr risg radioleg;</li><li>• arweiniad a roddir i gyfeirwyr ysbytai a meddygon teulu ar ddisgwyliadau wrth gyfeirio cleifion at y gwasanaeth; ac</li><li>• enghreifftiau o unrhyw waith a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf i fesur profiad cleifion radioleg.</li></ul>

Dull	Manylion
Cyfweiliadau	Bu i ni gyfweild â nifer fach o staff: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Therapydd Arweinyddol</li> <li>• radiograffwyr arolygol</li> <li>• rheolwyr cyffredinol lleoliad</li> </ul>
Grwpiau ffocws	Bu i ni gynnal grwpiau ffocws gydag arweinwyr meddygon teulu a rheolwyr Bwrdd Iechyd yng nghlystyrau'r Gogledd, Canolbarth a De.
Arolwg	Bu i ni wneud arolwg o radiograffwyr.

# Atodiad 2

## Ymateb Rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r argymhellion o'r adroddiad ac ymateb y rheolwyr.

Dangosyn 16: Ymateb Rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion

Cyf	Argymhelliad	Deilliant / mantais a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ydy / nac ydy)	Derbyniwyd (do/nadd o)	Ymateb rheolwyr	Dyddiad gorffen	Swyddog â chyfrifoldeb
R1	Datblygu cynllun gweithredu sy'n manylu ar y modd y bydd oedi wrth adrodd yn ôl yn cael ei drin yn gynaliadwy.	Sicrhau fod adroddiadau'n cael eu darparu o fewn yr amserlen a gytunwyd er mwyn i gleifion dderbyn canlyniadau delweddu mewn dull amserol.	Ydy	Do	Mae'r Bwrdd Prosiect Cynradd a Gofal Cymunedol yn arolygu'r Prosiect Diagnostig. Bydd y llif gwaith pelydr-x plaen yn adolygu pob un o'r SLAs er mwyn ymdrin â materion adrodd yn ôl – bydd crynodeb o ganfyddiadau'n dod yn sail i ddeialog a newidiadau i SLAs y dyfodol gyda sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth.	Ebrill 2018 Bydd yr adolygiad yn cyfrannu at wybodaeth am SLAs diwygiedig gyda sefydliadau comisiynu a darparu.	Arweinydd Llif Gwaith Pelydr-x plaen – Neville Davies, Arweinydd Tîm (De)

Cyf	Argymhelliad	Deilliant / mantais a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ydy / nac ydy)	Derbyniwyd (do/nadd o)	Ymateb rheolwyr	Dyddiad gorffen	Swyddog â chyfrifoldeb
R2	Adolygu adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ar wasanaethau radioleg ar gyfer byrddau iechyd sy'n darparu MRI, CT ac uwch-sain er mwyn deall materion mynediad ac adrodd yn ôl er mwyn cynorthwyo â thrafodaethau comisiynu ag ysbytai sy'n darparu gwasanaeth.	Gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau yn y Byrddau Iechyd sy'n darparu er mwyn cyfrannu at ddealltwriaeth wrth ddatblygu strategaeth ddiagnostig.	Ydy	Do	Materion o gael eu hadolygu a dod yn rhan o drafodaethau gydag ysbytai sy'n darparu gwasanaeth. Ymgorfforir hyn yn y Strategaeth Ddiagnostig ddrafft presennol.	Medi 2017	Lorraine Haynes, Arweinydd Gweithredol, Therapydd Blaen (De)
R3	Mae angen i'r Bwrdd Iechyd adnabod maint y galw cynyddol am bob math o ddelweddu diagnostig, gan gynnwys sganio MRI a CT, a sut y mae'n bwriadu cwrdd â hyn fel rhan o ddatblygu'i gynllun strategol ar gyfer gwasanaethau diagnostig i boblogaeth Powys dros y pum mlynedd nesaf.	Gwell dealltwriaeth o gyfanrwydd y galw uwch potensial a'i effaith ar ddatblygu strategaeth ddiagnostig.	Ydy	Do	Llif gwaith pelydr-x plaen i adnabod anghenion dealltwriaeth busnes. Y cam nesaf yw sefydlu llif gwaith sganio MRI, CT o dan y Cynllun Diagnostig. Therapydd Blaen (De) i arwain dadansoddi galw fel Arweinydd Gweithredol.	Medi 2017	Lorraine Haynes, Arweinydd Gweithredol, Therapydd Blaen (De)

Cyf	Argymhelliad	Deilliant / mantais a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ydy / nac ydy)	Derbyniwyd (do/nadd o)	Ymateb rheolwyr	Dyddiad gorffen	Swyddog â chyfrifoldeb
R4	Dros y flwyddyn nesaf, cynyddu cyfraddau hyfforddiant mandadol ar gyfer pob aelod o staff radioleg hyd at darged y Bwrdd Iechyd, sef 85%, o leiaf.	Staff a hyfforddwyd yn well a chynnydd yn niogelwch cleifion. Helpu i gwrdd â'r targed hyfforddi mandadol corfforaethol.	Ydy	Do	Ar 06/04/2017 mae'r raddfa gydymffurfio yn 71.47%. Nid oes hyfforddiant trin â llaw ar gael tan fis Mai 2017. Nid oes hyfforddiant ystafell ddisbarth arall ar gael ar hyn o bryd ar ESR. Mae Arweinydd Timau'n monitro'n weithredol.	Ebrill 2018	Gogledd: Rachel Pritchard, Arweinydd Tîm Vic Deakins, Therapyddio n Blaen Gogledd De: Neville Davies, arweinydd tîm Lorraine Haynes, Therapydd Blaen

Cyf	Argymhelliad	Deiliant / mantais a fwriedir	Blaenor iaeth uchel (ydy / nac ydy)	Derbyniwyd (do/nadd o)	Ymateb rheolwyr	Dyddiad gorffen	Swyddog â chyfrifoldeb
R5	Cryfhau rheoli perfformiad drwy ehangu ar y dewis o fesurau perfformiad sy'n cydfynd â'r amcanion busnes a gwasanaeth i gynnwys agweddau fel oedi wrth adrodd yn ôl.	Gwell dealltwriaeth o berfformiad y gwasanaeth i roi gwybodaeth a chefnogi gwelliant parhaus.	Ydy	Do	Therapyddion Blaen (Gogledd a De) i sefydlu mesurau perfformiad gan weithio gydag arweinyddion clinigau ac ymgynghorwyr proffesiynol (unwaith y bydd drafft SLAs presennol a chytundebau anrhydeddus wedi'u cadarnhau). Adroddir am fesurau perfformiad drwy gyfrwng adolygiadau'r gyfarwyddiaeth a Thimau Rheoli Lleoliad.	Ebrill 2018	Vic Deakins a Lorraine Haynes, Therapyddion Blaen (Gogledd a De) gydag Ymgynghorwyr proffesiynol (SLAs – Prifysgol Betsi Cadwaladr University a Chwm Taf)



Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone : 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)